# Canllaw i Gymunedau

## Sut byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau yng Nghymru



Radioactive Waste Management

V1(W)

Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu'r dyfodol

# Cynnwys


Rhagair ... 3
Gwybodaeth am y Canllaw hwn ... 4

## Adran 1 - Cyflwyniad i waredu daearegol

Pwy yw RWM a beth yw ein rôl? ... 7
Beth yw polisi'r Llywodraeth? ... 7
Rolau a chyfrifoldebau ... 8
O ble mae'r gwastraff yn dod? ... 9
Beth allai Cyfleuster Gwaredu Daearegol ei gynnwys? ... 9
Beth yw gwaredu daearegol? ... 10
Faint o dir fydd ei angen? ... 10
Pa gymorth a chefnogaeth fydd ar gael i gymunedau? ... 11
Sut byddwn yn bod yn agored a thryloyw â chymunedau? ... 13
Rheoleiddio gwaredu daearegol ... 14

## Adran 2 - Dod o hyd i safle addas a chymuned barod

Gweithio gyda chymunedau ... 16
Cyllid ymgysylltu ... 18
Sut byddwn ni'n gwerthuso ardaloedd a safleoedd posibl? ... 19
Trafodaethau cychwynnol ... 20
Gweithgor ... 22
Rôl awdurdodau lleol perthnasol ... 24
Gweithgor: prif gyfrifoldebau ... 26
Y bartneriaeth gymunedol ... 30
Sefydlu panel buddsoddi cymunedol ... 34
Nodweddu safleoedd ... 38
Hawl i dynnu'n ôl ... 40
Prawf cefnogaeth y cyhoedd ... 42
Buddsoddiad ychwanegol sylweddol ... 43

## Adran 3 - Rhagor o wybodaeth a chysylltu â ni

Rhagor o wybodaeth a chysylltu â ni ... 45
Geirfa ... 46

# Sicrhau dyfodol sy'n fwy diogel

Croeso i’n Canllaw i gymunedau a fyddai’n hoffi cael rhagor o wybodaeth am sut mae bod yn gymuned bosibl ar gyfer lleoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) y DU yn y dyfodol. Mae ein tîm brwd o arbenigwyr cyswllt cymunedol wedi casglu’r wybodaeth hon am y broses o fynegi diddordeb pellach mewn bod yn safle ar gyfer CGD a nodir gan Lywodraeth Cymru.

*Mae RWM yn sefydliad dielw, sector cyhoeddus a sefydlwyd i ddarparu dyfodol sy’n fwy diogel drwy reoli gwastraff ymbelydrol yn effeithiol.*

Mae’r broses a nodir yn y canllaw hwn wedi cael ei datblygu dros nifer o flynyddoedd ac yn rhoi cymunedau wrth galon lleoli CGD. P’un ai a ydych chi’n gwneud ymholiadau cychwynnol, neu’ch bod yn barod i gymryd y cam nesaf drwy ddatgan eich diddordeb ac ymgysylltu â ni, gobeithiwn y bydd yr holl wybodaeth yn y canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu ymholiadau, mae ein tîm wrth law i ateb eich cwestiynau.

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb yn y dogfennau eraill sydd ar gael ar ein gwefan, sy’n cynnwys allbynnau ein hymarfer Sgrinio Daearegol Cenedlaethol, gwybodaeth am sut byddwn yn gwerthuso safleoedd a rhagor o wybodaeth am waredu daearegol a’r gwastraff rydyn ni’n ei reoli.



**Bruce McKirdy**
Rheolwr Gyfarwyddwr

## Gwybodaeth am y Canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gymru yn unig.

*Gwaredu daearegol yw'r ateb sy'n cael ei dderbyn yn rhyngwladol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir.*

Cyfres o fowtiau a thwneli yn ddwfn o dan y ddaear yw Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD). Mae'n cynnig ateb diogel a pharhaol ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

Mae *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau*[1] yn pennu fframwaith polisi RWM ar gyfer gweithio gyda chymunedau yng Nghymru i waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn ddaearegol. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn ddull seiliedig ar gydsyniad o weithio mewn partneriaeth â chymunedau mewn modd agored a thryloyw, i ddod o hyd i safle addas ar gyfer CGD mewn cymuned sy'n fodlon cynnig lleoliad ar gyfer y cyfleuster. Gallai'r broses o nodi a dewis safle ar gyfer CGD gymryd hyd at 20 mlynedd. Bydd y gwaith o adeiladu a gweithredu'r cyfleuster yn cymryd 100+ o flynyddoedd ar ben hynny.

Mae Radioactive Waste Management (RWM) yn gyfrifol am weithredu rhaglen gwaredu daearegol sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn dderbyniol gan y cyhoedd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn unol â pholisïau perthnasol a gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol y llywodraeth. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r cymunedau hynny er mwyn gwneud hyn.

Diben y Canllaw hwn yw darparu gwybodaeth, cynorthwyo a rhoi cyngor er mwyn cefnogi'r fframwaith polisi hwn yng Nghymru. Mae hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am waredu daearegol a'r broses o ganfod safle addas ar gyfer CGD.

Mae Canllaw ar wahân[2] yn cefnogi'r polisi Gweithio gyda Chymunedau i'w ddefnyddio yn Lloegr, lle mai gwaredu daearegol yw'r dull sy'n cael ei ffafrio i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir.

Gall unrhyw un gysylltu ag RWM i gael rhagor o wybodaeth am waredu daearegol neu am y broses o ganfod a dewis safle, gan gynnwys unigolion, tirfeddianwyr, awdurdodau lleol, busnesau neu grwpiau cymunedol. Rydyn ni yma i helpu ac rydyn ni'n gwahodd pobl i ymuno â ni yn y trafodaethau.

## Mae'r Canllaw wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:

Mae **Adran 1** (tudalennau 6-14) yn rhoi trosolwg o bolisïau Llywodraeth Cymru / o ble mae'r gwastraff wedi dod; at ba ddibenion y mae'r DU yn defnyddio technoleg niwclear; sut mae'r gwastraff yn cael ei storio ar hyn o bryd; a pham mae angen dull diogel o waredu'r gwastraff yn y tymor hir arnom. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi gwybodaeth am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i gymunedau sydd eisiau ymgysylltu â ni. Hefyd, mae'n egluro sut byddwn ni'n ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw drwy gydol y broses.

Mae **Adran 2** (tudalennau 15-43) yn ganllaw sy'n egluro'r broses o ddod o hyd i gymuned sydd â safle addas ac yn barod i gynnig lleoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD). Gallai'r broses hon gymryd tua 20 mlynedd a byddwn yn cynnal gwaith technegol manwl mewn safleoedd posibl i asesu pa mor addas ydynt yn ystod y cyfnod hwn. Bydd cyllid ar gael i gymunedau sydd â diddordeb ac mae'r adran hon yn egluro at ba ddibenion y gellid ei ddefnyddio.

Mae **Adran 3** (tudalennau 44-47) yn cynnwys ein manylion cyswllt ynghyd â'n Hysbysiad Preifatrwydd, sy'n amlinellu sut rydyn ni'n delio â data personol, a geirfa ddefnyddiol.

**Adnoddau pellach**
Byddwn yn sicrhau bod rhagor o adnoddau ar gael i gymunedau eu defnyddio drwy gydol y broses. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel templedi, enghreifftiau o arferion da ac astudiaethau achos, ynghyd â chyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill a allai fod yn ddefnyddiol i gymunedau.

Drwy'r Canllaw hwn, mae dolenni at gymorth ychwanegol, a sut y gellir cysylltu â ni (gweler tudalen 45).

### I gysylltu â ni

**E-bostiwch: GDFenqcymru@nda.gov.uk**

**neu ysgrifwnnwch atom yn**
**GDF Enquiries**
**Building 587, Curie Avenue,**
**Harwell Campus,**
**Didcot , OX11 0RH**

**Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r Canllaw hwn, felly cysylltwch â ni.**

[1] *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol – Gweithio gyda Chymunedau.*
***https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal-working-with-communities-long-term-management-of-higher-activity-radioactive-waste***
[2] ***https://www.gov.uk/guidance/communities-and-gdf***



Derbynnir yn rhyngwladol mai gwaredu daearegol ydy’r ateb i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

## Adran 1

# Cyflwyniad



## Pwy yw RWM a beth yw ein rôl?

*Mae Radioactive Waste Management Ltd (RWM) yn gorff cyhoeddus ac yn is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Yn RWM, mae gennym dros 30 mlynedd o brofiad o gynnal gwaith ymchwil a datblygu gwyddonol ym maes gwaredu daearegol.*

Rydym yn gweithio'n agos gyda gwledydd eraill ledled y byd i rannu gwybodaeth am faterion pwysig yng nghyswllt gwaredu daearegol. Rydym hefyd yn rhoi cyngor i sefydliadau sy'n cynhyrchu gwastraff ynglŷn â sut mae nôl, paratoi a phecynnu gwastraff ymbelydrol, mewn ffyrdd a fydd yn ei wneud yn addas i'w waredu mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD).

Un o'n swyddogaethau yw dod o hyd i ddull diogel a pharhaol o reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y DU. Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi gwaredu daearegol ar waith a darparu dulliau tymor hir o reoli gwastraff ymbelydrol. Mae cymunedau yn ganolog i'r hyn a wnawn.

**Byddwn yn gyfrifol am y canlynol:**

- sicrhau bod cymunedau yn cael gwybodaeth am y broses er mwyn canfod a dewis safle ar gyfer CGD;
- darparu cyllid i helpu cymunedau i ymgysylltu â'r broses;
- darparu Cyllid Buddsoddi Cymunedol ar gyfer cymunedau sy'n rhan o'r broses;
- gwerthuso ac ymchwilio i safleoedd posibl;
- cyflwyno ceisiadau cynllunio, caniatâd a thrwyddedu perthnasol, ac ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn;
- darparu CGD, gan gynnwys dylunio, adeiladu, gweithredu a chau'r cyfleuster.

***Rhagor o wybodaeth am RWM***

## Beth yw polisi'r Llywodraeth?

**Cefndir Polisi**
Yn 2001, fe wnaeth Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ddechrau'r rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel[3], gyda'r bwriad o ddod o hyd i ddull tymor hir ymarferol o reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y DU, sy'n:

- amddiffyn pobl a'r amgylchedd yn y tymor hir;
- agored a thryloyw ac yn ennyn hyder y cyhoedd;
- seiliedig ar wyddoniaeth ddibynadwy;
- sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Rhwng 2003 a 2006, cafodd amrywiaeth eang o opsiynau ar gyfer delio â gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM), sef pwyllgor cynghori annibynnol Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd hyn yn cynnwys opsiynau a oedd yn amrywio o storfa amhenodol ar yr wyneb neu oddi tano, i anfon y gwastraff i'r gofod.

Yn 2006, fe wnaeth CoRWM argymell mai gwaredu daearegol, ynghyd â storfeydd diogel dros dro, yw'r opsiwn gorau sydd ar gael i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd y DU yn y tymor hir[4]. Fe wnaeth CoRWM gyhoeddi datganiad yn ategu ei ymrwymiad i waredu daearegol yn 2013[5] ac eto yn 2018[6].

**Gweinyddiaethau Datganoledig**
Yn y DU, mae gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig. Mae hyn yn golygu y gall gwahanol bolisïau llywodraeth fod yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwaredu daearegol yw'r dull y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ei ffafrio ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir. Mae polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu cymunedol yng Nghymru yn adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru, ac mae hefyd yn gydnaws ag elfennau allweddol o raglen gwaredu daearegol Llywodraeth y DU.

Ym mis Mai 2015 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi: *Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd*[7]. Dilynwyd hyn gan ddatganiad polisi pellach ym mis Rhagfyr 2015: *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosiectau Lleoli*[8]. Roedd y datganiadau polisi hyn yn cadarnhau mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn tymor hir gorau ar gyfer rheoli Gwastraff Uwch ei Actifedd, ac yn cadarnhau mai dim ond drwy ddefnyddio dull seiliedig ar gydsyniad o weithio mewn partneriaeth â chymunedau sy'n lleoliadau posibl y bydd modd rhoi'r polisi gwaredu daearegol ar waith yng Nghymru.

[3] *Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel: Cynigion ar gyfer Datblygu Polisi Rheoli Gwastraff Ymbelydrol Solet yn y DU, Medi 2001:* ***http://bit.ly/15Rum8m***
[4] *Argymhelliad CoRWM:* ***https://www.gov.uk/government/publications/managing-our-radioactive-waste-safely-corwm-doc-700***
[5] *Datganiad CoRWM ar waredu daearegol 2013:* ***https://www.gov.uk/government/publications/statement-on-geological-disposal***
[6] ***https://www.gov.uk/government/publications/radioactive-waste-support-for-disposal-rather-than-indefinite-storage-corwm-position-paper***
[7] ***http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf***
[8] ***https://gov.wales/docs/desh/publications/151210-geological-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-community-engagement-and-siting-processes-cy.PDF***

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu daearegol yn cynnwys gwaredu gwastraff uwch ei actifedd yng Nghymru. Os deuir â gwastraff i Gymru i gael ei waredu ar ôl lleoli CGD mewn cymuned barod yng Nghymru, bydd yn dod o dan bolisi Llywodraeth Cymru. Os bydd gwastraff, sy'n cael ei storio ar safleoedd yng Nghymru neu'n dod o Gymru, yn gadael Cymru i gael ei waredu mewn rhan arall o'r DU, ni fydd yn dod o dan bolisi Llywodraeth Cymru mwyach.

Polisi Llywodraeth Cymru yw bod rhaid i RWM ddod o hyd i safleoedd sy'n addas yn dechnegol a chanddynt gymuned sy'n rhoi caniatâd pendant i ni fwrw ymlaen â datblygu CGD. Nid yw hyn yn golygu y bydd CGD yn cael ei adeiladu yng Nghymru o reidrwydd, nac y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio adeiladu CGD yng Nghymru. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn glir - dim ond os yw cymuned yn fodlon a bod modd dod o hyd i safle addas a diogel y caiff CGD ei adeiladu yng Nghymru.
Mae'r broses o ddewis safle yng Nghymru yn seiliedig ar gydsyniad. Er mai ni fydd yn arwain y broses, mae hyn yn golygu bod rhaid cael cydsyniad cymuned cyn y gallwn wneud cais am y trwyddedau a'r caniatâd i adeiladu a gweithredu CGD.

Yng Nghymru, bydd angen i gyfleusterau gwaredu daearegol a thyllau turio ymchwilio dwfn[9] gael eu cymeradwyo gan reoleiddiwr amddiffyn yr amgylchedd perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru) a'r rheoleiddiwr diogelwch niwclear (y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, ONR). Yng Nghymru, bydd angen cymeradwyo CGD drwy system gynllunio Cymru hefyd.

Mae polisi Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru ond nid yw'n union yr un fath. Felly, nid yw'r Canllaw hwn yn berthnasol i gymunedau yn Lloegr.

Mae gan Lywodraeth yr Alban bolisi gwahanol[10] sef y dylid trin gwastraff ymbelydrol, ei storio a'i waredu mewn cyfleusterau agos i'r wyneb sydd mor agos â phosibl at y safle lle caiff y gwastraff ei gynhyrchu. Felly, nid yw'r Canllaw hwn yn berthnasol i gymunedau yn yr Alban.

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am sicrhau na fydd unrhyw Gyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, ar iechyd nac ar ddiogelwch yng Ngogledd Iwerddon. Er bod Gogledd Iwerddon yn cydnabod ei bod er ei budd pennaf i gefnogi unrhyw fecanweithiau sy'n sicrhau bod y gwastraff hwn yn cael ei reoli yn y modd mwyaf diogel, byddai unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â gwaredu daearegol yng Ngogledd Iwerddon yn fater i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd wedi'i hatal ar hyn o bryd. Felly, nid yw'r Canllaw hwn yn berthnasol i gymunedau yng Ngogledd Iwerddon.

## Rolau a chyfrifoldebau

**Llywodraeth Cymru** sy'n gyfrifol am y polisi ar reoli gwastraff ymbelydrol. Mae asiantaethau cyflawni'r Llywodraeth, rheoleiddwyr a gweithredwyr masnachol yn gweithredu a chyflawni eu cenadaethau yn unol â'r fframwaith hwn.

Mae'r **Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)** yn gorff cyhoeddus anadrannol a gafodd ei sefydlu yn sgil Deddf Ynni 2004. Mae'n gyfrifol am ddatgomisiynu a glanhau safleoedd niwclear sifil sy'n bodoli eisoes ac yn eiddo i'r cyhoedd ledled y DU, ac am sicrhau eu bod ar gael at ddibenion eraill. Mae'n gyfrifol am weithredu polisi Llywodraeth Cymru ar reoli gwastraff ymbelydrol yng Nghymru yn y tymor hir.

Mae'r NDA wedi gwneud **Radioactive Waste Management (RWM)**, sef is-gwmni i'r NDA, yn gyfrifol am waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol. Fel y corff cyflawni ar gyfer CGD, mae RWM yn gyfrifol am ddiogelwch a diogelu'r amgylchedd drwy gydol oes y rhaglen. RWM sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol yng nghyswllt gwaredu daearegol.

Mae **cymunedau** yn ganolog i'r dull seiliedig ar gydsyniad. Byddant yn gallu cynnal trafodaethau ag RWM am y broses leoli, a gweithio mewn partneriaeth â ni os byddant yn penderfynu eu bod am gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

**Awdurdodau lleol perthnasol** Yr awdurdodau lleol perthnasol ydy'r awdurdodau unedol hynny sy'n cynrychioli'r tir yn yr ardaloedd cyngor cymuned, o fewn ei ffiniau, sydd yn yr ardal sy'n cael ei hystyried. Byddant yn gyfrifol am rai penderfyniadau allweddol ynglŷn â rhan y gymuned yn y broses. Rhaid i awdurdod lleol perthnasol fod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol (sef y prif gyfrwng ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng RWM a'r gymuned) er mwyn i ardaloedd cynghorau cymuned o fewn ei ffiniau fod yn rhan o'r Ardal Chwilio.

Mae'r **Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM)** yn darparu gwasanaeth craffu a chyngor annibynnol i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ynglŷn â rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir.

Mae gan y **rheoleiddwyr** rôl bwysig i'w chwarae o ran diogelu pobl a'r amgylchedd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yn rheoleiddio diogelwch amgylcheddol a diogelwch CGD.

---

*[9] Caiff tyllau turio dwfn eu tyllu i ddyfnder o 150 metr neu fwy, a byddant yn ein helpu ni i asesu a yw'r ddaeareg yn addas i gynnwys CGD. Bydd tyllau turio yn rhoi samplau o greigiau a dŵr daear i ni, a fydd yn ein galluogi ni i ddeall nodweddion ffisegol y graig, yn ogystal â sut mae dŵr a hylifau eraill yn teithio drwy wahanol haenau o greigiau.*
*[10] Polisi Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yr Alban 2011*
***https://www.gov.scot/Publications/2011/01/20114928/0***

## O ble mae'r gwastraff yn dod?

**Technolegau niwclear**

Fel arloeswr ym maes technoleg niwclear, mae'r DU wedi cronni gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn sgil amryw o weithgareddau yn ystod y 60 mlynedd diwethaf, gan gynnwys cynhyrchu trydan, meddygaeth, ymchwil a rhaglenni cysylltiedig ag amddiffyn.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- **cynhyrchu trydan** - mae tua 20% (1/5) o drydan y DU yn dod o orsafoedd pŵer niwclear, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff ymbelydrol y bydd rhaid i ni ei reoli yn dod o orsafoedd pŵer
- **defnydd meddygol** - yn benodol, caiff deunyddiau ymbelydrol eu defnyddio i ddiheintio cyfarpar, ac i helpu i roi diagnosis o salwch fel canser a'i drin
- **diwydiant** - er enghraifft, caiff pelydrau gama eu defnyddio i brofi ansawdd weldio
- **amddiffyn** - gan gynnwys pweru llongau tanfor ac arfau
- y**mchwil a datblygu** - amrywio o dechnoleg ymasiad niwclear i ddatblygu triniaethau radiotherapi newydd
- c**ynnyrch i ddefnyddwyr** - fel synhwyryddion mwg neu offer diheintio bwyd.

Mae lefel yr ymbelydredd yn isel yn y rhan fwyaf o'r gwastraff a gellir ei waredu'n ddiogel mewn cyfleusterau ar yr wyneb, ond mae angen ateb tymor hir ar gyfer y gwastraff uwch ei actifedd, oherwydd bydd rhywfaint ohono'n dal yn beryglus am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd hwn yn cael ei storio dros dro mewn safleoedd niwclear ledled y DU. Bydd mwy o'r gwastraff hwn yn cael ei gynhyrchu wrth i gyfleusterau presennol ddod i ddiwedd eu hoes a chael eu datgomisiynu a'u glanhau, a drwy weithredu a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear newydd.

Heddiw, mae'r DU yn wynebu'r her o lanhau ar ôl gweithrediadau niwclear blaenorol a pharatoi ar gyfer ffordd ddiogel a pharhaol o waredu'r gwastraff niwclear sy'n cael ei greu yn sgil defnyddio technolegau niwclear nawr ac yn y dyfodol.

## Beth allai Cyfleuster Gwaredu Daearegol ei gynnwys?

*Y 'cyflenwad gwaredu' yw'r enw a roddir ar y gwastraff a fydd yn cael ei waredu mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol.*

Mae'r mathau a'r symiau o wastraff sy'n rhan o'r cyflenwad hwn yn bwysig oherwydd:

- bydd angen i gynllun a dyluniad y cyfleuster gwaredu fod yn bwrpasol ar eu cyfer;
- bydd angen i gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD ddeall beth yw'r gwastraff a fydd yn cael ei waredu yno.

Dyma'r mathau penodol o wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (a deunyddiau niwclear y gellid eu hystyried yn wastraff) y byddai'r cyflenwad a gaiff waredu mewn CGD yn eu cynnwys:

- Gwastraff Lefel Uchel (HLW) sy'n deillio o ailbrosesu tanwydd niwclear wedi'i ddefnyddio yn Sellafield;
- Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW) sy'n deillio o safleoedd niwclear trwyddedig sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys cyfleusterau amddiffynnol, meddygol, diwydiannol, ymchwil ac addysgol;
- y gyfran fechan o Wastraff Lefel Isel (LLW) nad yw'n addas i gael ei waredu yn y Storfa Gwastraff Lefel Isel genedlaethol;
- tanwydd wedi'i ddefnyddio o adweithyddion masnachol presennol (gwastraff nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff eto) ac o adweithyddion ymchwil heb eu prosesu;
- tanwydd wedi'i ddefnyddio (gwastraff nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff eto) a Gwastraff Lefel Isel o raglen adeiladu newydd hyd at swm penodedig;
- stociau plwtoniwm – plwtoniwm nad yw'n cael ei ailddefnyddio i gynhyrchu tanwydd newydd (gwastraff nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff eto);
- stociau wraniwm – gan gynnwys yr hyn sy'n deillio o weithgareddau cynhyrchu a phuro tanwyddd (gwastraff nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff eto);
- tanwydd arbelydredig a deunyddiau niwclear (gwastraff nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff eto) o raglen amddiffyn y DU.

Does dim disgwyl i'r categorïau gwastraff a deunyddiau a restrir uchod newid yn sylweddol. I gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD, mae'r disgrifiad hwn yn rhoi'r darlun mwyaf cyflawn o'r cyflenwad posibl a fydd yn cael ei waredu ar hyn o bryd.

Gall symiau o wastraff newid o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys gwella amcangyfrifon y gwastraff a fydd yn deillio o raglenni datgomisiynu a gweithrediadau wedi'u cynllunio.

Fodd bynnag, pe bai'r rhestr gwastraff a deunyddiau'n newid, byddai angen ei thrafod â'r Gymuned lle gellid lleoli'r CGD. Cyn cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, byddai angen cytuno ar broses ar gyfer dod i gytundeb ynghylch newidiadau pwysig i gategorïau'r gwastraff a fydd yn cael ei waredu yn y CGD yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r broses o roi gwaredu daearegol ar waith, mae RWM yn cyhoeddi disgrifiad meintioledig o'r cyflenwad ar gyfer gwaredu. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf yn 2018[11], ynghyd â'r methodolegau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei ddatblygu.

ℹ ***Darllenwch am y gwahanol fathau o wastraff y gellir eu cynnwys mewn CGD.***

[11] *UK Radioactive Waste Inventory* ***https://ukinventory.nda.gov.uk***

## Beth yw gwaredu daearegol?

*Bydd Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn gyfleuster sydd wedi'i adeiladu i lefel beirianegol uchel er mwyn rheoli'r broses o waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddwfn o dan y ddaear mewn modd diogel.*

Bydd y gwastraff yn cael ei becynnu mewn cynwysyddion diogel wedi'u gwneud o fetel neu goncrid fel arfer, a fydd yn cael eu gosod mewn fowtiau a thwneli rhwng 200 a 1,000 o fetrau o dan wyneb y ddaear mewn ffurfiant craig sefydlog, a bydd y cynwysyddion wedi'u hamgylchynu gan ddeunydd addas fel clai neu sment. Yr enw a roddir ar hwn yw'r dull aml-rwystr. Mae'r amgylchedd naturiol o dan y ddaear sy'n amgylchynu'r CGD yn gweithredu ar y cyd â'r mesurau peirianegol i gynnwys yr ymbelydredd yn ddwfn o dan y ddaear.

Tair prif fantais gwaredu daearegol yw:

- mae'n **ynysu**'r gwastraff ymbelydrol yn ddwfn o dan y ddaear;
- mae'n r**hwystro**'r ymbelydredd rhag lledaenu wrth iddo ddadfeilio'n naturiol dros amser;
- mae'n system **oddefol**, sy'n golygu nad oes gwaith cynnal a chadw cyson.

Mae storfeydd dros dro ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn gyfleusterau cadarn, peirianegol sy'n atal deunydd peryglus rhag cael ei ryddhau i'r amgylchedd y tu allan. Mae storfeydd dros dro wedi'u dylunio i wrthsefyll digwyddiadau y mae modd eu rhagweld, fel daeargrynfeydd a thywydd difrifol, ac maent yn sicrhau diogelwch drwy fod yn rhwystr sy'n atal ymyrraeth.

Gwneir buddsoddiad sylweddol mewn gwella cyfleusterau storio dros dro, ond mae cyfyngiad ar oes y storfeydd. Yn y pen draw, bydd angen ailadeiladu'r storfeydd ac ailbecynnu'r gwastraff sydd ynddynt, gan ystyried bod angen rheoli'r gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd am gyfnodau hir iawn. Nid yw storio gwastraff dros dro yn ateb parhaol ar gyfer gwaredu, ond mae'n ffordd ddiogel o storio pecynnau gwastraff sy'n aros i gael eu gwaredu'r barhaol mewn CGD.

## Faint o dir fydd ei angen?

*Bydd angen i'r ardal angenrheidiol gwmpasu tua 1 cilometr sgwâr o dir uwch ben y ddaear, a bydd manylion y cynllun a'r edrychiad yn ddibynnol ar nodweddion y lleoliad penodol.*

Efallai na fydd angen i'r holl gyfleusterau ar yr wyneb fod gyda'i gilydd mewn un lle. Does dim rhaid i'r cyfleusterau ar yr wyneb fod yn uniongyrchol uwch ben y cyfleusterau o dan y ddaear. Er enghraifft, gallai'r cyfleusterau ar yr wyneb fod ar y tir a gallai'r cyfleusterau o dan y ddaear fod yn y graig yn ddwfn o dan wely'r môr.

Bydd y cyfleusterau o dan y ddaear wedi'u lleoli rhwng 200 metr a 1000 metr o dan y ddaear ac fe allent gwmpasu ardal o hyd at 20 cilometr sgwâr, yn ddibynnol ar y lleoliad, y dyluniad a'r math o wastraff a fydd yn cael ei waredu.

Er y byddai'n llawer gwell gan Lywodraeth y DU pe bai'r holl wastraff yn cael ei reoli mewn un CGD, gellid cael mwy nag un. Pe bai mwy nag un, fe allant fod mewn gwahanol rannau o Gymru neu Loegr.

**Lle gallai Cyfleuster Gwaredu Daearegol gael ei leoli?**
Mae ystod eang o leoliadau daearegol addas posibl ar gyfer CGD. Does dim un math gorau neu fwyaf addas o ddaeareg ar gyfer CGD.

Yn 2014, fe ofynnodd Llywodraeth y DU i ni gasglu gwybodaeth ddaearegol lefel uchel sy'n berthnasol i ddiogelwch tymor hir CGD yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yr enw a roddir ar hyn yw'r ymarfer Sgrinio Daearegol Cenedlaethol ar gyfer CGD. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym wedi ystyried y tri math eang o graig y byddai modd adeiladu CGD ynddynt, sydd i'w cael o dan y tir a hyd at 12 morfilltir (20 cilometr) oddi ar arfordir Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon[12]. Y creigiau hyn yw:

- Creigiau cryfder uwch – er enghraifft, gwenithfaen;
- Creigiau gwaddod cryfder is – er enghraifft, carreg laid fel carreg glai;
- Anweddfeini – er enghraifft, halen craig.

ℹ *I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Sgrinio Daearegol Cenedlaethol ar gyfer CGD.*

[12] *Yn 2014, cyhoeddwyd y Papur Gwyn 'Rhoi Gwaredu Daearegol ar Waith' ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Yn 2018, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad 'Gweithio gyda Chymunedau' ar y cyd rhwng yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Byddai penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch polisi mewn cysylltiad â gwaredu daearegol yng Ngogledd Iwerddon yn fater i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd wedi'i hatal ar hyn o bryd. Felly, yn absenoldeb parhaus y Weithrediaeth, nid oes modd gwneud rhagor o ymrwymiadau polisi ar hyn o bryd.*

## Pa gymorth a chefnogaeth fydd ar gael i gymunedau?

*Bydd ystod eang o gymorth ar gael i gymunedau sy'n dymuno ymchwilio i beth allai CGD ei olygu i'w cymuned nhw.*

Byddwn yn gweithio gyda chi i nodi'r adnoddau y mae eu hangen arnoch, i ddatrys problemau'n uniongyrchol, neu i'ch helpu chi i ddatblygu sgiliau ychwanegol lle y bo hynny'n angenrheidiol. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod staff RWM ar gael i weithio gyda grwpiau fel y Gweithgor, y Bartneriaeth Gymunedol a'r Panel Buddsoddi Cymunedol. Bydd yr holl grwpiau hyn yn cael ei hegluro'n fwy manwl yn Adran 2 y Canllaw hwn.

Er mai RWM fydd y lle cyntaf i gael gwybodaeth am waredu daearegol, ceir mynediad at arbenigwyr annibynnol perthnasol ar gyfer ymholiadau technegol, cymdeithasol, gwyddonol a pholisi, os bydd angen. Gall y Bartneriaeth Gymunedol hefyd gomisiynu adroddiadau ac ymchwil fel rhan o'r Rhaglen o Weithgareddau y cytunir arni. Gallwn hefyd eich cysylltu chi â grwpiau cymunedol, rheoleiddwyr a chwmnïau sy'n ymgysylltu â rhaglenni gwaredu daearegol mewn rhannau eraill o'r byd.

Gellir gofyn am gymorth, cyngor a gwybodaeth gan reoleiddwyr amgylcheddol a niwclear annibynnol hefyd (Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn y drefn honno). Bydd y rheoleiddwyr yn gallu darparu gwybodaeth i gymunedau am nifer o bynciau a mynd i'r afael â chwestiynau am bynciau a allai fod yn bwysig i bobl mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a diogelwch niwclear.

Bydd bwrdd cynghori annibynnol y DU a Llywodraeth Cymru, a'r Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM), hefyd yn gallu darparu cyngor.

*Bydd ystod eang o gefnogaeth ar gael i gymunedau sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses o ddod o hyd i leoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol.*

**Mynediad at wybodaeth dechnegol a gwyddonol**
Ac ystyried yr amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth sydd ar gael, gallai'r Bartneriaeth Gymunedol dderbyn datganiadau sy'n gwrthdaro gan wahanol bartïon. Yn yr achosion hyn, bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod mecanwaith ar gael i'r Bartneriaeth Gymunedol, neu RWM, ei defnyddio i gael mynediad at safbwyntiau a wrthwynebwyd neu sydd heb eu datrys, neu at faterion technegol gan arbenigwyr sydd wedi'u cydnabod gan y Cymdeithasau Dysgedig.[13]

Ni ragwelir y bydd y fecanwaith hon yn cael ei defnyddio'n gyson, dim ond pan fo materion yn codi a bod un o'r partïon yn teimlo y byddai cael barn bellach gan aelod o Gymdeithas Ddysgedig berthnasol yn ddefnyddiol i ategu'r wybodaeth sydd eisoes wedi'i darparu.

Mae'n bwysig nodi na fydd aelodau o Gymdeithasau Dysgedig yn gwneud penderfyniadau, yn cynnig argymhellion nac yn rhoi cyngor. Yn hytrach, gallant roi barn arbenigol annibynnol ynghylch y mater dan sylw. Gellir defnyddio hyn i ddarparu gwybodaeth i'r gymuned ac i ni yn RWM.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi cael ei lofnodi gan Lywodraeth Cymru, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cymdeithas Ddaearegol Llundain, y Sefydliad Asesu a Rheoli Amgylcheddol, ac RWM. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn caniatáu i'r grŵp estyn allan i Gymdeithasau Dysgedig eraill nad ydynt wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, pe bai'r cwestiwn y tu allan i gylch gwaith unrhyw un ohonynt.

Y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn penderfynu a ddylid gofyn am farn gan y Cymdeithasau Dysgedig, er y gall aelodau o'r gymuned ofyn i'r Bartneriaeth ystyried gwneud hynny. Gall RWM ofyn am farn hefyd.

Bydd y farn arbenigol yn cael ei dychwelyd i'r Bartneriaeth Gymunedol neu i RWM gan arbenigwr/arbenigwyr y Gymdeithas Ddysgedig. Bydd y farn yn cael ei rhannu, a'r Bartneriaeth Gymunedol neu RWM fydd yn penderfynu sut mae gweithredu ar y farn y mae wedi'i chael.

**Cymorth ariannol**
RWM fydd yn ysgwyddo'r gost o gynnal y broses leoli. Yn ogystal â chael cymorth a chefnogaeth, bydd treuliau rhesymol yn cael eu talu'n ôl i unigolion sy'n cymryd rhan uniongyrchol yn y Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol.

Bydd awdurdodau lleol perthnasol sy'n cymryd rhan yn y broses yn cael cefnogaeth ariannol, er mwyn sicrhau nad yw trethdalwyr lleol yn wynebu unrhyw faich ariannol ychwanegol. Cytunir ar y fecanwaith ar gyfer hyn ymlaen llaw.

*[13] Sefydliad annibynnol sy'n hyrwyddo disgyblaeth academaidd, proffesiwn, neu grŵp o ddisgyblaethau cysylltiedig yw Cymdeithas Ddysgedig.*



Bydd awdurdodau lleol perthnasol sy'n cymryd rhan yn y broses yn cael cymorth ariannol, i sicrhau na fyddant yn cael unrhyw faich ariannol ychwanegol.



## Sut byddwn yn bod yn agored a thryloyw â chymunedau?

*Ein nod yw sefydlu a chynnal partneriaeth agos â phob cymuned sydd am drafod y posibilrwydd o leoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol â ni. Rydyn ni'n deall y bydd hyn yn dibynnu ar ddatblygu a chynnal ymddiriedaeth, hyder a pharch o'r ddwy ochr.*

Rydyn ni eisiau datblygu perthynas agos â chymunedau drwy wneud y canlynol;

- ymgysylltu'n eang â chymunedau;
- gwrando ar anghenion a phryderon y gymuned;
- ymateb i gwestiynau neu bryderon y gymuned yn agored ac yn gyflym;
- rhannu gwybodaeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am gynnydd;
- gwneud yn siŵr bod gan bobl bopeth y mae ei angen arnynt i'w helpu i ddeall y gofynion technegol, gwyddonol a rheoliadol ar gyfer lleoli CGD.

Byddwn yn darparu gwybodaeth ac yn gweithio gyda phobl er mwyn iddynt allu cael gafael ar yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt. Byddwn hefyd ar gael i ddarparu cyfleoedd i helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau aelodau o'r gymuned er mwyn gallu cymryd rhan lawn yn y broses.

Byddwn yn gwahodd ac yn croesawu ymgysylltiad â'r gymuned drwy gydol y broses, ond ni fyddwn yn cymryd yn ganiataol fod hyn yn awgrymu eich bod yn gefnogol o ddatblygu CGD. Byddwn yn parchu amrywiaeth eang o safbwyntiau.

Mae RWM wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chymunedau a'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r cymunedau sy'n rhan o'r broses. Mae'r broses seiliedig ar gydsyniad yn golygu mai dim ond os bydd safle addas yn cael ei ganfod a bod y gymuned leol yn cydsynio i gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster y bydd CGD yn cael ei adeiladu. Hefyd, mae gan y gymuned hawl i dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg (gweler adran 2), am unrhyw reswm, nes y caiff Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd ei gynnal (tudalen 42).

**Gwerthusiad annibynnol**
Byddwn yn ymgysylltu â gwerthuswyr annibynnol i adolygu pa mor effeithiol rydym yn ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol y broses. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddysgu o'r profiad er mwyn gwella sut ydym yn ymgysylltu yn y dyfodol. Bydd y canfyddiadau yn cael eu rhannu â Gweithgorau, Partneriaethau Cymunedol ac is-grwpiau sy'n rhan o'r broses.

## Yr egwyddorion rydym yn gweithio tuag atynt

**Wrth ymgysylltu â chymunedau, ein nod yw bod yn sefydliad:**

### Tryloyw:
**Byddwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth y mae ei heisiau arnynt i bobl. Bydd yr wybodaeth yn glir, yn hygyrch ac yn cael ei darparu mewn fformat priodol.**

### Adeiladol:
**Rydyn ni'n anelu at gael deialog dwyffordd yn ystod y broses. Byddwn yn parchu gwahanol safbwyntiau a barn er mwyn datblygu ymddiriedaeth o'r ddwy ochr.**

### Cynhwysol:
**Rydyn ni eisiau annog a deall barn eang y gymuned ynghylch y broses. Lle mae rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan, byddwn yn cymryd camau i oresgyn y rhain. Lle mae diffyg gallu, amser neu sgiliau sy'n atal pobl rhag ymgysylltu'n llawn, byddwn yn gweithio gyda nhw i nodi pa gymorth y mae ei angen er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n dymuno cymryd rhan yn cael cyfle i wneud hynny.**

### Seiliedig ar Dystiolaeth:
**Byddwn yn darparu tystiolaeth a gwybodaeth ffeithiol wrth i ni werthuso safleoedd. Bydd adnoddau ar gael i'r gymuned er mwyn ateb y cwestiynau sydd ganddynt. Lle y bo hynny'n angenrheidiol, bydd cymorth yn cael ei gynnig er mwyn datblygu sgiliau ymysg pobl leol i'w helpu i ymgysylltu'n fwy hyderus â gwybodaeth dechnegol.**

### Cyson:
**Efallai fod pob cymuned yn wahanol, ond ym mhob un, byddwn yn ymgysylltu gan ddilyn Polisi Gweithio gyda Chymunedau y Llywodraeth a chyd-fynd ag ef. Er y gallem ymateb yn wahanol i wahanol amgylchiadau cymunedol, bydd proses gyson yn cael ei dilyn gyda phob cymuned.**

### Heb ragfarn:
**Rydym yn cydnabod nad yw'r ffaith fod unigolion yn cymryd rhan yn y broses o reidrwydd yn golygu eu bod yn cefnogi gwaredu daearegol.**

### Amserol:
**Byddwn yn gwneud yn siŵr bod digon o amser i ystyried cwestiynau ac ymateb iddynt yn ddeallus.**

## Rheoleiddio gwaredu daearegol

*Yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â chymunedau, mae tair prif broses arall yn rhan o ddatblygu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Y rhain yw cynllunio defnydd tir, trwyddedu amgylcheddol a thrwyddedu safleoedd niwclear. Yn ystod pob un o'r prosesau hyn, bydd ymgysylltu rhwng RWM, rheoleiddwyr a chymunedau.*

Pan fyddwn eisiau tyllu tyllau turio dwfn (mwy na 150m o ddyfnder), bydd angen gwneud cais am drwyddedau amgylcheddol, yn ogystal â gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Bydd angen i RWM ddal trwydded amgylcheddol ar wahân ar gyfer pob ardal ddaearyddol dan sylw cyn dechrau ar unrhyw dyllau turio dwfn. Bydd y rheoleiddwyr yn ymgynghori ynghylch ceisiadau am drwyddedau amgylcheddol (lle y bo hynny'n briodol).

Pan fydd safle CGD yn cael ei ffafrio, bydd rhaid i RWM wneud cais am ganiatâd cynllunio priodol a thrwydded amgylcheddol ddiwygiedig ar gyfer CGD cyn gallu dechrau gwaith cloddio cysylltiedig â gwaith archwilio tanddaearol. Bydd angen i ni hefyd wneud cais am drwydded safle niwclear gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear. O dan drwydded safle niwclear, bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn sicrhau bod RWM yn ymdrin â diogelwch confensiynol ac unrhyw oblygiadau o ran diogelwch niwclear o'r cychwyn cyntaf wrth adeiladu CGD.

Bydd cynllunio defnydd tir, trwyddedu amgylcheddol a thrwyddedu safle niwclear yn cynnwys rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd lle y bo hynny'n briodol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn darparu gwybodaeth a sylwadau i'r awdurdodau cynllunio mewn perthynas â'r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd cymunedau ac awdurdodau lleol yn gallu chwarae rhan lawn yn y prosesau hyn, p'un ai a ydyn nhw wedi cefnogi datblygiad CGD o'r blaen neu beidio.

Bydd y CGD yn cael ei reoleiddio ar y cyd gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Chyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn sicrhau bod eu gofynion rheoleiddiol ar wahân yn cael eu bodloni mewn ffordd sy'n diogelu pobl a'r amgylchedd i'r safon uchel sy'n ofynnol. Bydd y gwaith rheoleiddio ar y cyd yn parhau tra bydd y CGD yn cael ei adeiladu, yn cael ei weithredu ac yn cau.

Adran 2

# Dod o hyd i safle addas a chymuned barod



# Gweithio gyda Chymunedau

## Bydd amddiffyn pobl a diogelu'r amgylchedd yn sail i bopeth a wnawn.

*Yn yr adran hon, rydym yn trafod sut byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i ganfod safle addas ar gyfer CGD mewn rhagor o fanylder. Mae'n mynd i'r afael â'r canlynol:*

**Trafodaethau Cychwynnol a ffurfio Gweithgor -** gall unrhyw un neu unrhyw grŵp o bobl sydd â diddordeb yn y broses leoli ac yn dymuno cynnig ardal i'w hystyried gychwyn trafodaethau ynghylch lleoliad arfaethedig ar gyfer CGD. Bydd Partïon â Diddordeb yn cysylltu â ni i gynnal Trafodaethau Cychwynnol. Ar ôl i wybodaeth gael ei chyfnewid ac y cytunir y byddai'n werth ystyried y cynnig ymhellach, bydd rhaid i RWM a'r Parti â Diddordeb, ar y cyd, roi gwybod i'r holl awdurdodau lleol perthnasol ac agor trafodaethau yn ehangach yn y gymuned. Yr awdurdodau lleol perthnasol fydd yr awdurdodau unedol sy'n cynrychioli'r holl ardal dan ystyriaeth neu ran ohoni. Bydd y Parti â Diddordeb, RWM, y cadeirydd a'r hwylusydd annibynnol yn ffurfio Gweithgor. Bydd y Gweithgor yn nodi'r ardal ddaearyddol, o'r enw'r Ardal Chwilio, lle byddwn yn chwilio am safleoedd addas posibl ar gyfer CGD. Rhaid gwahodd yr holl awdurdodau lleol perthnasol i ymuno â'r Gweithgor, ond gellir bwrw ymlaen yn eu habsenoldeb.


**Cyllid Ymgysylltu -** bydd Cyllid Ymgysylltu yn cael ei ddarparu drwy gydol y broses leoli. Ei fwriad yw cefnogi gweithgareddau'r Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol.

**Partneriaeth Gymunedol -** bydd y Gweithgor yn dechrau casglu gwybodaeth am y bobl a'r sefydliadau yn yr ardal sy'n debygol o fod â diddordeb mewn CGD neu y mae CGD yn debygol o effeithio arnynt, gyda'r bwriad o bennu aelodau ar gyfer Partneriaeth Gymunedol. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol hon yn cynnwys aelodau o'r gymuned, sefydliadau, RWM a'r awdurdod(au) lleol perthnasol. Bydd yn gyfrwng i rannu gwybodaeth â'r gymuned ac i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau sydd gan y gymuned am waredu daearegol, y broses leoli a sut gallai, fel cymuned, elwa. Os yw am lwyddo, bydd yn bwysig bod y Bartneriaeth Gymunedol yn adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei chynrychioli, o ran ei chyfansoddiad a'i safbwyntiau, ac yn parchu'r amrywiaeth barn eang. Os na fydd awdurdod lleol perthnasol yn cytuno i ymuno, neu'n penderfynu gadael Partneriaeth Gymunedol, ni fydd y tir yn ardaloedd y cyngor cymuned o fewn ei ffiniau yn cael ei ystyried yn y broses leoli ddim mwy.

**Cytundeb Partneriaeth Gymunedol -** bydd cytundeb yn cael ei lofnodi gan ddarpar aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol, a fydd yn nodi'r egwyddorion o ran sut bydd aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn gweithio gyda'i gilydd, sut byddant yn gwneud y penderfyniadau angenrheidiol, a beth fydd eu rolau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys cydweithio er mwyn symud y broses leoli yn ei blaen ac ymgysylltu â phobl yn yr ardal.

# Dod o hyd i safle addas a chymuned barod

Amserlen ar gyfer y broses o ddod o hyd i leoliad




**Cyllid Buddsoddi Cymunedol -** bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod hyd at £1 filiwn y flwyddyn o Gyllid Buddsoddi Cymunedol ar gael i bob cymuned sy'n ffurfio Partneriaeth Gymunedol. Bydd y buddsoddiad hwn yn codi i £2.5 miliwn y flwyddyn i bob cymuned ar gyfer y cymunedau sy'n mynd ymlaen i'r cam lle bydd tyllau turio dwfn yn cael eu harchwilio (bydd angen y rhain er mwyn asesu pa mor addas yw safle). Gellir defnyddio'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol i ariannu prosiectau, cynlluniau neu fentrau sy'n darparu cyfleoedd datblygu economaidd, yn gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, neu'n gwella lles y gymuned.

**Hawl i Dynnu'n Ôl -** Gall cymuned dynnu'n ôl o'r broses leoli ar unrhyw adeg nes y bydd wedi cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Yr awdurdod lleol, neu awdurdodau lle bo mwy nag un, sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol fydd yn penderfynu a fydd y gymuned yn cael ei thynnu'n ôl. Faint bynnag o awdurdodau lleol sy'n rhan o'r Bartneriaeth, gall awdurdod lleol perthnasol dynnu'r ardaloedd sydd o fewn ffiniau'r cyngor cymuned yn ôl drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu alw'r Hawl Tynnu'n Ôl i rym.

Gall RWM dynnu'n ôl ar unrhyw adeg hefyd, er enghraifft os byddwn yn penderfynu bod y broses leoli'n annhebygol o lwyddo mewn cymuned benodol.

**Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd -** cyn gwneir penderfyniad i ofyn am benderfyniadau priodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu gymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer CGD gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, rhaid i'r gymuned gynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd er mwyn dangos ei bod yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer CGD. Yr awdurdodau lleol perthnasol yn y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn cael y gair olaf ynghylch pryd y dylid cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd er mwyn gofyn am farn y gymuned ar gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Rhaid i awdurdod lleol perthnasol yn y Bartneriaeth Gymunedol gytuno i gynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd er mwyn i'r prawf fynd rhagddo mewn ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau.

# Cyllid Ymgysylltu

*Byddwn yn cael cyllid i gefnogi gweithgareddau'r Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol drwy gydol y broses. Gelwir hwn yn 'Gyllid Ymgysylltu'.*

Gallai'r gweithgareddau gynnwys y canlynol (ond nid y rhain yn unig):

- cymorth ariannol i awdurdodau lleol perthnasol er mwyn cymryd rhan yn y Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol
- talu treuliau rhesymol i unigolion sydd yn y Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol
- cymorth i ganfod a phenodi cadeirydd annibynnol a hwyluswyr annibynnol
- costau ysgrifenyddol a logistaidd o gynnal y Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol, fel llogi lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd
- canfod rhanddeiliaid yn y gymuned a allai fod â diddordeb mewn cynnig lleoliad ar gyfer CGD
- cymorth i ganfod a phenodi aelodau o Bartneriaeth Gymunedol
- rheoli Fforwm Rhanddeiliad Cymunedol ac unrhyw is-grwpiau, gan gynnwys y Panel Buddsoddi Cymunedol
- gweithgarwch cyfathrebu, fel gwefannau, taflenni gwybodaeth, posteri, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau gwybodaeth (gan gynnwyd darpariaeth ddwyieithog)
- costau gweinyddu a rheoli, a chyngor er mwyn helpu i ddosbarthu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol
- gweithgareddau perthnasol sy'n dysgu cymunedau am waredu daearegol
- ymweliadau â safleoedd priodol, er enghraifft, safleoedd niwclear sy'n bodoli eisoes
- cyngor gan arbenigwyr annibynnol, er enghraifft, cyngor cyfreithiol, cyngor ynghylch cynllunio priodol neu gyngor technegol
- cyfarfodydd â rheoleiddwyr
- comisiynu adroddiadau ar faterion sydd heb eu cynnwys eisoes yn rhaglen dechnegol RWM
- Gweithdai a digwyddiadau yng nghyswllt Gweledigaeth y Gymuned
- datblygu gallu (cryfhau sgiliau, gwybodaeth a hyder) unigolion a grwpiau yn y gymuned i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses - er enghraifft, sgiliau i wneud cais am Gyllid Buddsoddi Cymunedol, i ddeall deddfwriaethau perthnasol, neu i ddeall technolegau niwclear neu faterion daearegol
- costau cysylltiedig â rheoli Hawl i Dynnu'n Ôl y gymuned a Phrawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

Bydd Cyllid Ymgysylltu yn cael ei ryddhau yn unol â'r egwyddorion canlynol:

1. Rhaid gwneud ceisiadau am Gyllid Ymgysylltu drwy raglen waith y cytunwyd arni ag RWM ar gyfer Gweithgor neu Bartneriaeth Gymunedol.
2. Rhaid i RWM awdurdodi holl wariant y Cyllid Ymgysylltu ymlaen llaw.
3. Rhaid i holl wariant y Cyllid Ymgysylltu fod wedi'i anelu at fynd i'r afael â'r cwestiynau y mae'r gymuned am gael atebion iddynt er mwyn symud y broses o ganfod safle posibl ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol yn ei blaen.
4. Rhaid gwario Cyllid Ymgysylltu yn unol â pholisi'r Llywodraeth, rheolau caffael cyhoeddus, canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Trysorlys ei Mawrhydi, a chanllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, lle y bo hynny'n briodol.
5. Penderfynir a fydd Cyllid Ymgysylltu ar gael ar gyfer cymuned drwy ei gydbwyso ag anghenion ehangach y broses CGD, a bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod y cyllid ar gael ar gyfer rhaglen y CGD.

**Cymorth ariannol i awdurdodau lleol perthnasol**
Bydd awdurdodau lleol perthnasol yn cael cefnogaeth ariannol i dalu'r gost o gymryd rhan yn y broses, er mwyn sicrhau nad yw trethdalwyr lleol yn wynebu unrhyw faich ariannol. Cytunir ar y fecanwaith ar gyfer hyn ymlaen llaw. Ni fydd angen i'r awdurdod lleol ymrwymo i gefnogi CGD er mwyn cael y cyllid hwn – byddant yn rhydd i ddod i benderfyniad eu hunain ynglŷn â pha mor addas fyddai cael CGD yn eu hardal.

**Treuliau unigolion**
Bydd Cyllid Ymgysylltu ar gael i dalu am dreuliau rhesymol unigolion sy'n cymryd rhan uniongyrchol yng ngwaith y Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol (fel costau teithio i fynd i gyfarfodydd). Bydd RWM yn rhoi cyngor ac arweiniad clir ynghylch gweithgareddau y gellir talu costau ar eu cyfer, a sut bydd costau yn cael eu had-dalu.

Ni chymerir yn ganiataol bod unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y broses, gan gynnwys derbyn treuliau, o reidrwydd yn cefnogi CGD. Bydd pobl yn rhydd i ddod i benderfyniad eu hunain ynglŷn â pha mor addas fyddai cael CGD yn eu hardal leol.

**Defnyddio gwasanaethau lleol**
Bydd hyblygrwydd i ddefnyddio darparwyr gwasanaethau lleol neu bresennol lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn gweithio gyda phawb sydd â diddordeb i sicrhau bod y gwasanaethau angenrheidiol o safon uchel, yn rhoi gwerth am arian ac yn cyflawni'r gofynion caffael perthnasol.

# Sut byddwn ni'n gwerthuso ardaloedd a safleoedd posibl?

*Er mwyn ein galluogi ni i weithio gyda chymunedau i ganfod a gwerthuso ardaloedd a safleoedd posibl mewn Ardaloedd Chwilio, rydym yn defnyddio ein dogfen: 'Gwerthuso Safleoedd – Sut Byddwn yn Gwerthuso Safleoedd yng Nghymru'.*

Nod y ddogfen hon yw galluogi a chefnogi'r canlynol:

- dull cyson a thryloyw o werthuso ardaloedd a safleoedd posibl;
- lefel briodol o werthuso ar gyfer pob ardal a safle posibl yn erbyn y Gofynion presennol a pherthnasol;
- ceisiadau RWM am ganiatâd yn y dyfodol, gan gynnwys cydsyniadau cynllunio defnydd tir, trwyddedau amgylcheddol a thrwydded safle niwclear.

Nid yw'r ddogfen Gwerthuso Safleoedd ei hun yn sefydlu unrhyw ofynion i RWM eu defnyddio yn ystod y broses leoli, ac nid yw'n tynnu, yn gwella, yn addasu nac yn creu unrhyw rai o'r Gofynion presennol. Yn syml, ei nod yw casglu at ei gilydd y Gofynion y bydd yn rhaid i RWM gydymffurfio â nhw'n anochel mewn unrhyw achos yn ystod y broses leoli, boed hynny fel rhan o'i ymgysylltiad a'i ddeialog â chymunedau neu ei geisiadau i gael y cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer adeiladu a gweithredu cyfleuster gwaredu daearegol.

Mae chwe Ffactor Lleoli arfaethedig i'w defnyddio yn ein gwerthusiadau, sy'n mynd i'r afael â Diogelwch, y Gymuned, yr Amgylchedd, Peirianneg, Ymarferoldeb, Trafnidiaeth a Chostau. Mae nifer o Ystyriaethau yn gysylltiedig â phob un o'r Ffactorau hyn. Er enghraifft, mae'r Ystyriaethau canlynol yn sail i Ddiogelwch: Diogelwch Dylunio, Diogelwch Adeiladu, Diogelwch Gweithredol a Diogelwch ar ôl Cau.

I ddechrau, byddwn yn cynnal gwerthusiadau lefel uchel o ardaloedd a / neu safleoedd y mae Partïon â Diddordeb wedi'u hawgrymu, gan ystyried yr hyn fyddai orau ganddynt. Yn nes ymlaen yn y broses, bydd gwybodaeth newydd yn cael ei chasglu am y safle posibl a'r gymuned, a fydd yn mynd yn fwy manwl a chymhleth wrth i ni gynnal gweithgareddau fel arolygon geoffisegol, tyllu tyllau turio ymchwilio, a dadansoddi samplau o greigiau a dŵr daear.

Bydd ein gwerthusiadau yn cael eu trafod a'u rhannu â'r Parti â Diddordeb, y Gweithgor neu'r Partneriaethau Cymunedol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynigion ar gyfer gwerthuso safleoedd ar gael yma **gwaredu daearegol**

# Trafodaethau Cychwynnol

*Gall unrhyw un gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth am y broses o ganfod a dewis safle ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol a beth allai hynny ei olygu ar gyfer eu hardal. Ar yr adeg hon, efallai mai dim ond diddordeb mewn clywed am y broses fydd gan bobl. Neu efallai y bydd Parti â Diddordeb yn dymuno cynnig ardal i'w hystyried. Nid yw'n ymrwymo neb i gynnig lleoliad ar gyfer CGD mewn ardal.*

Gallai'r Parti â Diddordeb sy'n dymuno siarad â ni fod yn unigolyn, yn dirfeddiannwr, yn awdurdod lleol, yn fusnes neu'n grŵp cymunedol sy'n dymuno cynnig ardal i'w hystyried. Gallai fod yn blot o dir neu gallai awdurdod lleol ofyn i ni ystyried ei ardal gyfan. Does dim angen i chi fod yn berchen ar dir na ffurfio grŵp i ddechrau trafodaeth â ni, a does dim rhaid i chi fod â safle penodol dan sylw.

Mae'n bosibl y bydd ardal o dir yn cael ei awgrymu ar gyfer y cyfleusterau ar yr wyneb, gyda'r bwriad i'r cyfleuster ymestyn o dan wely'r môr. Gellir cynnig tir sy'n eiddo i'r Llywodraeth hefyd.

Pan fydd trydydd parti yn cynnig safle nad yw'n eiddo iddo, byddwn yn ystyried pryd y byddai'n briodol cynnwys y tirfeddiannwr/tirfeddianwyr yn y trafodaethau.

Does dim dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau cychwynnol ar hyn o bryd ond byddwn yn adolygu hynny.

Rydym yn gwahodd Partïon â Diddordeb i ymgysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth am waredu daearegol ac i ymchwilio i beth allai cynnig lleoliad ar gyfer CGD ei olygu i'w hardal a'u cymuned. Ni fyddwn yn cymryd yn ganiataol bod rhywun sy'n cychwyn neu gynnal trafodaethau ag RWM yn cefnogi CGD o reidrwydd. Ar yr adeg hon, gellir cadw trafodaethau'n gyfrinachol (yn amodol ar y gofynion datgelu mewn deddfwriaethau gwybodaeth, gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 2018), er y dylid eu gwneud yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl os bydd y Parti â Diddordeb ac RWM yn penderfynu bwrw ymlaen.





Byddwn yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl ac yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau. Gallai'r rheini fod am y canlynol:

- beth mae gwaredu daearegol yn ei olygu
- diogelwch
- daeareg
- yr amgylchedd
- pa gymorth sydd ar gael
- pa wastraff y mae modd ei gynnwys mewn CGD
- rôl y rheoleiddwyr
- cyllid sydd ar gael i gymunedau
- adeiladu, gweithredu a chau CGD
- y broses leoli ei hun.

Gellir cael nifer o Bartïon â Diddordeb mewn ardal. Oherwydd y bydd y trafodaethau'n anffurfiol, efallai na fydd y partïon yn gwybod am ei gilydd. Efallai y byddwn yn annog y partïon i ymgyfuno, ond y Partïon â Diddordeb fydd yn gyfrifol am benderfynu gwneud hynny.

**Y camau nesaf**
Os deuir i'r casgliad y byddai'n bosibl lleoli CGD yn yr ardal dan sylw, a bod y Parti â Diddordeb yn dymuno bwrw ymlaen, gellir ffurfio Gweithgor.

Bydd angen rhoi gwybod i'r holl awdurdodau lleol perthnasol[14] cyn gwneud cyhoeddiad cyhoeddus (tudalen 24) am y cynigion, a dechrau deialog gyda phobl yn yr ardal.

Rhaid gwahodd yr holl awdurdodau lleol perthnasol i ymuno â Gweithgor (gweler yr adran nesaf ar y 'Gweithgor') a fydd yn cael ei ffurfio er mwyn dechrau'r sgwrs â phobl yn yr ardal.

---

*[14] Yr awdurdodau lleol perthnasol fydd yr awdurdodau unedol sy'n cynrychioli'r holl ardal dan ystyriaeth neu ran ohoni.*

# Gweithgor

*Bydd Gweithgor yn cael ei ffurfio er mwyn dechrau ymgysylltu â phobl yn yr ardal, canfod Ardal Chwilio, a ffurfio Partneriaeth Gymunedol. Nid yw ffurfio Gweithgor yn ymrwymo unrhyw un sy'n cymryd rhan i gynnig lleoliad ar gyfer CGD.*

Diben y Gweithgor yw:

- helpu pobl yn yr ardal leol i ddeall y broses
- dechrau deall yr ardal ac unrhyw broblemau neu gwestiynau sydd gan y gymuned
- helpu pobl i ddeall y cyfleoedd y gallai CGD eu cyflwyno i gymuned
- braenaru'r ffordd i greu Partneriaeth Gymunedol er mwyn mynd i'r afael â chwestiynau'r gymuned mewn rhagor o fanylder.

Bydd y Gweithgor yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- Y Parti/Partïon â Diddordeb
- RWM
- Cadeirydd annibynnol
- Hwylusydd annibynnol.

Rhaid gwahodd yr holl awdurdodau lleol perthnasol i ymuno â'r Gweithgor. Yr awdurdodau lleol perthnasol yw'r awdurdodau unedol sy'n cynrychioli tir yr ardaloedd y cynghorau cymuned sydd o fewn ei ffiniau yn yr ardal dan sylw.

Mae cyfnod cynnar y broses hon yn ymwneud â chanfod ffeithiau, casglu gwybodaeth am y gymuned a rhoi gwybodaeth i'r gymuned am waredu daearegol. Ar yr adeg hon, mae'n bwysig sicrhau bod y gymuned yn gallu cynnal trafodaethau ynghylch archwilio a chanfod ffeithiau gydag RWM heb orfod aros i awdurdodau lleol perthnasol ymuno â'r Gweithgor. Felly, nid yw'n ofyniad bod awdurdod lleol perthnasol yn aelod o'r Gweithgor, er y byddai'n well cael o leiaf un awdurdod lleol perthnasol fel aelod, o ystyried eu profiad a'u gwybodaeth werthfawr am yr ardal a'r bobl leol.

Hefyd, efallai y bydd y Gweithgor yn dymuno ystyried a fyddai'n fuddiol gwahodd cynrychiolaeth o Ardaloedd Menter Arbennig[15] a chynghorau cymuned. O ystyried y nifer fawr o gynghorau cymuned[16] sydd mewn unrhyw ardal benodol, mae'n bosibl na fydd hi'n ymarferol i bob un ohonynt ymuno. Yn lle hynny, mae'n bosibl y byddant yn cytuno ar y cyd i anfon cynrychiolydd i ymuno â'r Gweithgor.

**Gweler y tabl i edrych yn fwy manwl ar bwy allai fod yn aelodau o'r Gweithgor:**

[15] *https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy*
[16] *http://www.onevoicewales.org.uk/OVWWeb/all_about_councils-7450.aspx*

# Dod o hyd i safle addas a chymuned barod



## Dyma olwg fwy manwl ar bwy allai fod yn aelodau o’r Gweithgor:

| Aelod | Rôl |
|---|---|
| Cadeirydd annibynnol | Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyfarfodydd a thrafodaethau’n cael eu cynnal mewn modd priodol. Byddai modd caffael rhywun o restr o gontractwyr cymeradwy i gyflawni'r rôl hon ar ran y Parti â Diddordeb, neu efallai y bydd modd defnyddio strwythurau sefydliadol cymunedol sydd eisoes ar waith yn yr ardal leol. |
| Hwylusydd annibynnol | Bydd yr hwylusydd annibynnol yn ceisio sicrhau bod trafodaethau yn mynd rhagddynt mewn modd adeiladol sy’n darparu gwybodaeth. Gall yr hwylusydd helpu i ofyn cwestiynau perthnasol a llywio sgyrsiau er mwyn trafod y pynciau sydd o ddiddordeb i’r Partïon â Diddordeb ac aelodau eraill o'r gymuned. |
| Parti â Diddordeb | Dyma’r grŵp, y sefydliad neu’r unigolyn/unigolion a ddechreuodd y trafodaethau â ni yn RWM. |
| RWM | Ni yw'r corff cyflawni sy’n ymgysylltu â'r gymuned – gan ddarparu gwybodaeth i'r gymuned a hybu manteision CGD. |
| Awdurdodau lleol perthnasol (dewisol) | Yr awdurdodau lleol perthnasol ydy'r awdurdodau unedol sy’n cynrychioli’r Ardal Chwilio gyfan neu ran ohoni. Efallai mai’r awdurdod lleol yw’r Parti â Diddordeb. Os ddim, rhaid rhoi gwybod iddo am y trafodaethau a’i wahodd i ymuno â'r Gweithgor. |

Efallai y bydd Gweithgorau eraill wedi cael eu ffurfio mewn ardaloedd cyfagos. Mae’n bosibl y byddai modd i ni ddod â nhw at ei gilydd i ffurfio un grŵp. Byddem yn ymgynghori â’r holl Weithgorau fesul un o dan yr amgylchiadau hyn.

**Ffurfio’r Gweithgor**
Gall RWM, y Parti/Partïon â Diddordeb, ac unrhyw awdurdodau lleol perthnasol sy’n cymryd rhan ddewis hwylusydd a chadeirydd annibynnol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- drwy ymgynghori â'r Ganolfan Penodiadau Cyhoeddus
- drwy drefniadau caffael arferol RWM
- drwy broses dendro gyda *Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron*

Pa bynnag ddull sy’n cael ei ddewis, byddwn yn helpu i sicrhau bod y broses o ffurfio'r Gweithgor yn un mor ddidrafferth ac effeithlon â phosibl.


Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y cymorth a fydd ar gael i'r Gweithgor, gan gynnwys templed o Gylch Gorchwyl.

## Cynllun cyfathrebu

*Un o brif dasgau'r Gweithgor fydd gwneud ei gynigion yn gyhoeddus er mwyn dechrau deialog i ddod o hyd i safle posibl ar gyfer CGD. Yn ogystal â sicrhau bod y bobl yn yr ardal yn ymwybodol o'i ymgysylltiad â'r broses, bydd angen i'r Gweithgor sicrhau bod yr awdurdodau lleol cyfagos yn gwybod.*

Dylai'r Gweithgor baratoi a gweithredu cynllun cyfathrebu integredig. Dydy hyn ddim yn golygu na all sefydliadau yn y Gweithgor ddatblygu eu dulliau cyfathrebu eu hunain, ond fe ddylent fod yn gydlynus. Gallai cyfathrebiadau gynnwys deunyddiau print (cyhoeddiadau mewn papurau newydd, hysbysebion); cyfryngau digidol (fel Facebook, LinkedIn); cyfarfodydd (wyneb yn wyneb neu drwy'r rhyngrwyd) neu lythyrau a negeseuon e-bost wedi'u targedu.

Dylai deunyddiau fod ar gael i gynifer o wahanol rannau o'r gymuned â phosibl, a bod yn sensitif i faterion diwylliannol perthnasol (er enghraifft, a oes angen gwasanaethau cyfieithu a bodloni darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg).



## Rôl awdurdodau lleol perthnasol

Rhaid gwahodd yr holl awdurdodau lleol perthnasol i ymuno â'r Gweithgor a r Bartneriaeth Gymunedol pan fyddant yn cael eu ffurfio. Er y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru pe baent yn ymuno â'r Gweithgor, does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny. Fodd bynnag, er mwyn ffurfio Partneriaeth Gymunedol, mae n rhaid ibob awdurdod lleol perthnasol ymuno er mwyn i'r ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau gael eu hystyried ar gyfer bod yn rhan o'r broses leoli.

Os oes mwy nag un awdurdod lleol yn yr Ardal Chwilio, rhaid gwahodd pob un i ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu peidio â bod yn aelod, ni fydd yr ardaloedd cyngor cymuned sydd o fewn ei ffiniau'n cael eu cynnwys fel rhan o Ardal Chwilio neu Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd awdurdodau lleol perthnasol yn gwneud dau benderfyniad pwysig yn y broses o ganfod safle a allai fod yn addas. Mae hyn oherwydd eu bod yn chwarae rhan hollbwysig o ran cynllunio economaidd, datblygu seilwaith a darparu gwasanaethau y byddai datblygu CGD yn effeithio arnynt; bydd hyn hefyd yn sicrhau atebolrwydd democrataidd. O ganlyniad i hynny, byddant yn cael y gair olaf o ran:

- a ddylid gofyn i gael tynnu'r gymuned o r broses leoli (drwy ddechrau'r Hawl i Dynnu'n Ôl);
- os neu pryd dylid gofyn am farn y gymuned ynghylch a yw'n dymuno cynnig lleoliad ar gyfer CGD (drwy gynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd).

Lle bo mwy nag un awdurdod lleol perthnasol yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol, gall awdurdod dynnu ardaloedd y cyngor cymuned sydd o fewn ei ffiniau o r broses leoli drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu alw'r Hawl i Dynnu'n Ôl i rym.

Bydd awdurdodau lleol perthnasol yn cael cefnogaeth ariannol i gymryd rhan yn y broses, er mwyn sicrhau nad yw trethdalwyr lleol yn wynebu unrhyw faich ariannol ychwanegol.

### Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol perthnasol

Bydd angen i'r Gweithgor sicrhau bod yr awdurdodau lleol perthnasol yn yr Ardal Chwilio yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru pe bai awdurdodau lleol perthnasol yn ymuno â'r Gweithgor, ond os na fydd awdurdodau lleol perthnasol yn ymuno, rhaid i'r Gweithgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn rheolaidd.

### Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol cyfagos

Dylai'r Gweithgor ac unrhyw Bartneriaethau Cymunedol yn y dyfodol roi gwybod i awdurdodau lleol (h.y. y rheini sy'n ffinio ag awdurdodau yn yr Ardal Chwilio) am y broses CGD a r Ardal Chwilio sy'n cael ei hystyried.

Efallai y bydd aelodau o'r Gweithgor ac unrhyw ddarpar Bartneriaethau Cymunedol eisoes mewn cyswllt rheolaidd â r awdurdodau lleol cyfagos, ac yn dewis cyfathrebu drwy'r dulliau cyfathrebu sefydledig hyn. Fel arall, fel allant ddewis cysylltu â'r awdurdodau lleol eraill yn uniongyrchol.

Er mwyn helpu i sicrhau cyfathrebu agored a thryloyw, dylai'r Gweithgor gadarnhau'r Ardal Chwilio gyda r awdurdodau lleol cyfagos.

Argymhellir bod y Gweithgor yn cydnabod yr awdurdodau lleol cyfagos fel rhanddeiliaid a'i fod yntau, ac unrhyw ddarpar Bartneriaeth Gymunedol, yn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y broses.



Yn ogystal â rhoi gwybod i'r bobl yn yr ardal am ei ymgysylltiad yn y broses o ddod o hyd i safle CGD, bydd angen i'r Gweithgor sicrhau bod yr awdurdodau lleol perthnasol yn cael gwybod.

## Gweithgor: prif gyfrifoldebau

*Bydd gan y Gweithgor dri phrif gyfrifoldeb:*

1. Dod o hyd i Ardal Chwilio (gweler tudalen 26)
2. Canfod aelodau posibl ar gyfer Partneriaeth Gymunedol (gweler tudalen 28)
3. Ymgysylltu ag awdurdodau lleol perthnasol yn yr Ardal Chwilio (os nad ydyn nhw wedi ymuno â'r Gweithgor) (gweler tudalen 29)

Bydd y Gweithgor yn dechrau ymgysylltu â phobl fel rhan o'i waith; bydd hefyd yn dechrau dod i ddeall yr ardal leol ac unrhyw broblemau neu gwestiynau sydd gan y gymuned.

Byddwn yn edrych yn fanwl ar y cyfrifoldebau hyn ar y tudalennau a ganlyn.

*Bydd y Gweithgor yn dechrau ymgysylltu â phobl fel rhan o'i waith; bydd hefyd yn dechrau deall yr ardal leol ac unrhyw faterion neu gwestiynau a allai fod gan y gymuned.*

Gweithgor: prif gyfrifoldebau
**1.**

# Dod o hyd i Ardal Chwilio

*Bydd y Gweithgor yn gyfrifol am bennu Ardal Chwilio. Yr Ardal Chwilio yw'r ardal ddaearyddol lle byddwn yn ceisio dod o hyd i safleoedd a allai fod yn addas i leoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol.*

Bydd yr Ardal Chwilio'n deillio o'r ardal a gynigir i'w hystyried yn y lle cyntaf gan y parti â diddordeb, a chaiff ei diffinio gan ddefnyddio ffiniau ardal y cynghorau cymuned. Mae rhai rhannau o Gymru heb gyngor cymuned, ond maent yn rhan o ardal cyngor cymuned. Felly, bydd yr Ardal Chwilio yn cynnwys yr holl ardaloedd cyngor cymuned y bydd RWM yn gallu ystyried safleoedd posibl ynddynt. I ardaloedd lle mae potensial i ddatblygu o dan y môr, dim ond y mannau ar y tir ar gyfer yr ardal honno fydd wedi'u cynnwys yn yr Ardal Chwilio.

Felly, mae'r Ardal Chwilio yn pennu'r canlynol:

- y gymuned a fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses
- yr ardal lle gallai archwiliadau ffisegol gael eu cynnal.

Bydd pennu Ardal Chwilio yn galluogi dull tryloyw o wneud y canlynol:

- ymgysylltu â'r gymuned yn ystod y broses (er enghraifft, bydd aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol yn cael eu dewis o'r Ardal Chwilio)
- dyrannu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol (h.y. prosiectau, rhaglenni a mentrau yn yr Ardal Chwilio a allai fod yn gymwys am Gyllid Buddsoddi Cymunedol).

Mae'n debyg y bydd yr Ardal Chwilio yn cael ei mireinio dros amser. Y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn rheoli hyn (gweler 30). Wrth i ymchwiliadau fynd rhagddynt, efallai y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn nodi ei bod am ddiystyru rhai ardaloedd, neu ychwanegu ardaloedd nad oeddent yn eu hystyried yn rhan o'r Ardal Chwilio i ddechrau. Bydd unrhyw newidiadau i ffiniau ardal y cyngor cymuned hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr Ardal Chwilio. Bydd yr Ardal Chwilio yn cael ei mireinio nes bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad (gweler tudalen 39) yn cael ei phennu.

Os yw Partïon â Diddordeb wedi dod o wahanol leoliadau, efallai y bydd RWM yn gweithio mewn nifer o Ardaloedd Chwilio. Yn ddibynnol ar eu lleoliad, gallai fod yn briodol ystyried eu cyfuno. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud drwy ymgynghori â'r Gweithgorau dan sylw.

## Canfod pobl a sefydliadau

***Bydd y Gweithgor yn dechrau chwilio am bobl a sefydliadau sy'n rhan o'r Ardal Chwilio, neu a allai fod yn rhan ohoni, ac y mae ganddynt ddiddordeb mewn cynnig lleoliad ar gyfer CGD neu y gallai CGD effeithio arnynt.***

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, sy'n cael eu cynllunio â'i buddiannau dan sylw, yn gynhwysol. Bydd hefyd yn helpu i gynllunio gweithgareddau cyfathrebu parhaus ac i ddod o hyd i aelodau posibl ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol (gweler tudalen 30).

## Deall problemau a chwestiynau'r gymuned

***Mae'n bwysig iawn bod syniadau a safbwyntiau'r gymuned yn cael eu deall a'u hystyried drwy gydol y broses.***

Fel rhan o'i waith o fapio pobl a sefydliadau, a dechrau dod i ddeall y gymuned leol, bydd y Gweithgor yn dechrau gofyn am fewnbwn gan y rheini yn yr ardal. Y diben yw dechrau ymchwilio i beth sy'n bwysig i bobl yn eu cymunedau a dod i ddeall unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddynt am y broses o ganfod lleoliadau posibl ar gyfer CGD.

Gallai hyn nodi, er enghraifft, nodweddion sy'n bwysig i'r gymuned, fel parciau lleol, llwybrau, mannau cyfarfod ac ati, y mae angen eu hystyried fel rhan o'n gwerthusiadau.

Byddai modd defnyddio amryw o ddulliau i ofyn am farn pobl, fel rheithgorau dinasyddion neu arbenigwyr ymgysylltu â'r gymuned.

Ni fwriedir i'r gwaith cynnar hwn ddarparu atebion i bob cwestiwn sydd gan y gymuned. Ei fwriad yw deall buddiannau pobl i raddau digonol er mwyn gallu braenaru'r ffordd ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol, a fydd yn ystyried cwestiynau a phryderon y gymuned mewn rhagor o fanylder ac yn mynd i'r afael â nhw.

## Casglu gwybodaeth er mwyn deall yr Ardal Chwilio

***Wrth i'r Gweithgor ddechrau pennu'r Ardal Chwilio, bydd yn dechrau dod i ddeall y strwythurau daearyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gweinyddol. Ar yr adeg hon yn y broses, bydd y grŵp yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd, er enghraifft gwybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi eisoes.***

Gallai'r math yma o wybodaeth gynnwys y canlynol:

- rhagolygon a phroffiliau cymdeithasol ac economaidd
- gwybodaeth am y rhwydwaith trafnidiaeth, gan gynnwys argaeledd a hygyrchedd y seilwaith trafnidiaeth
- ffiniau awdurdodau lleol a strwythurau yn yr Ardal Chwilio
- gwybodaeth am dirwedd ac ardaloedd amgylcheddol dynodedig
- gwybodaeth ychwanegol am ddaeareg a defnydd tir yn yr ardal
- lefelau cyflogaeth fesul sector a'r tueddiadau o ran lefelau cyflogaeth
- lefel yr addysg/sgiliau ymysg poblogaeth y gymuned
- lleoliadau a mathau o gyfleusterau, mannau hamdden/ mannau agored, hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad yn y gymuned
- data ynghylch iechyd a lles
- deall Gweledigaeth y Gymuned, er enghraifft, drwy ystyried:
  - Cynllun Datblygu Lleol
  - trategaethau neu bolisïau economaidd awdurdodau lleol
  - Cynlluniau busnes Ardaloedd Menter Arbennig.

Gweithgor: prif gyfrifoldebau
**2.**

# Nodi aelodau posibl Partneriaeth Gymunedol

*Un o dasgau allweddol y Gweithgor fydd nodi pobl yn yr Ardal Chwilio i fod yn ddarpar aelodau o Bartneriaeth Gymunedol (gweler tudalen 30).*

Wrth ystyried a ddylid cynnig lleoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol bydd llawer o wybodaeth i'w rhannu gyda'r gymuned dros gyfnod hir.

Mae Partneriaeth Gymunedol yn gyfrwng ar gyfer rhannu'r wybodaeth honno a dod o hyd i atebion i gwestiynau gan y gymuned. Mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn galluogi unigolion o fewn cymuned, gan ddod ynghyd fel tîm, i nodi ac ystyried y materion sydd o ddiddordeb i'r gymuned. Bydd cefnogaeth sylweddol ar gael i helpu'r Bartneriaeth Gymunedol ar hyd y daith hon.

## Pwy sy'n gallu bod yn aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol?

Fel lleiafswm, bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cynnwys:

- aelodau'r gymuned
- o leiaf un awdurdod lleol perthnasol
- RWM.

Yn ogystal, gallai gynnwys:

- cadeirydd annibynnol a/neu
- hwylusydd annibynnol.

Fel canllaw, gallai fod tua 12 aelod. Bydd angen i'r Gweithgor ystyried beth allai adlewyrchu cydbwysedd y gymuned neu fuddiannau'r gymuned yn ddigonol a beth sy'n nifer y gellir ei reoli.

Wrth ystyried aelodaeth o'r Bartneriaeth Gymunedol, bydd angen ystyried y gwahanol agweddau ar y gymuned. Gellid ystyried, er enghraifft, cyfran y bobl sy'n aelodau o'r bartneriaeth sydd â nodweddion gwarchodedig (e.e. oedran, anabledd, hil). Gellid ystyried ffactorau eraill fel gwasgariad daearyddol yr aelodau posibl; ffactorau economaidd fel sectorau cyflogaeth allweddol neu dirfeddianwyr. Dylai'r broses ar gyfer dewis aelodau'r bartneriaeth fod yn dryloyw.

Lle nad yw'r Parti â Diddordeb yn awdurdod lleol perthnasol, gall y Bartneriaeth Gymunedol gynnwys y Parti â Diddordeb gwreiddiol os yw am fod yn aelod.

Byddai'n briodol gwahodd cynrychiolaeth gan sefydliadau sydd â chyfrifoldeb dros reoli neu reoleiddio ardaloedd mawr o dir pe bai'r Ardal Chwilio yn cynnwys tir maent yn gyfrifol amdano.

Dylai'r Bartneriaeth Gymunedol geisio cynnwys cynrychiolaeth o gynghorau cymuned lle maent yn bodoli. O ystyried y nifer fawr o gynghorau cymuned mewn unrhyw ardal benodol, mae'n bosibl na fydd hi'n ymarferol i bob un ohonynt fod yn aelodau. Yn lle hynny, mae'n bosibl y byddant yn cytuno ar y cyd i gyflwyno cynrychiolydd i ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol. Gallai hefyd fod yn briodol gwahodd cynrychiolaeth o Barthau Menter Arbennig.

Gall y Bartneriaeth Gymunedol hefyd wahodd aelodau o fudiadau cymunedol neu wirfoddol, busnesau, darparwyr gwasanaethau lleol, a phartneriaethau trigolion a chymdogaethau lleol.

Gellid hefyd gofyn i grwpiau a sefydliadau cymunedol a nodwyd gan y Gweithgor enwebu pobl ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol. Gall unrhyw un o'r Ardal Chwilio wirfoddoli i fod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol.

Bydd aelodau sy'n cynrychioli sefydliadau yn gyfrifol am rannu'r holl wybodaeth a drafodir ac a ddatblygir drwy'r Bartneriaeth Gymunedol gyda gweddill eu sefydliadau.

Bydd RWM yn aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol.

Gall Partneriaeth Gymunedol benderfynu y byddai'n briodol cael cadeirydd annibynnol a hwylusydd annibynnol.

## Partneriaeth Gymunedol - crynodeb o rolau

| Aelod | Rôl |
|---|---|
| Aelodau o'r Gymuned | Sefydliadau ac unigolion sy'n adlewyrchu gwead y gymuned. |
| Awdurdodau lleol perthnasol | Mae awdurdodau lleol perthnasol (awdurdodau unedol) yn gynrychiolwyr etholedig trigolion yn yr Ardal Chwilio (a Chymuned Allai Gynnig Lleoliad pan gaiff honno ei nodi). Os na fydd awdurdod lleol perthnasol yn cytuno i ymuno, neu'n penderfynu gadael y Bartneriaeth Gymunedol, ni fydd y tir yn ardaloedd y cyngor cymuned o fewn ei ffiniau bellach yn cael ei ystyried yn y broses leoli. Bydd awdurdodau lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol yn cymryd dau fath allweddol o benderfyniadau. Ganddynt hwy fydd y gair olaf o ran a ddylid ceisio tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses leoli, ac o ran ceisio barn y gymuned ynghylch a yw'n dymuno cynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol. |
| RWM | Aelod allweddol o'r bartneriaeth fel corff cyflawni Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Byddwn yn darparu gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Bartneriaeth Gymunedol ac yn darparu diweddariadau ar ymchwiliadau i ddichonoldeb yr ardal o ran cynnal y cyfleuster. Byddwn yn egluro cysyniad Cyfleuster Gwaredu Daearegol a'i fuddion. Byddwn yn gyfrifol am bob penderfyniad technegol. |
| Cadeirydd | Ar y cychwyn, gallai hwn/hon fod yr un cadeirydd a ddefnyddiwyd yn ystod trafodaethau'r Gweithgor, neu gellid penodi cadeirydd newydd. Bydd yn sicrhau bod gwaith y Bartneriaeth Gymunedol yn deg, yn ddiduedd ac yn adlewyrchu anghenion y gymuned. |

## Sut penodir aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol?

*Bydd angen i'r Gweithgor nodi'r mathau o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y mae'n debygol y bydd ar y Bartneriaeth Gymunedol ei hangen wrth iddi ddechrau ar ei gwaith.*

Mae'n bosibl y bydd pob un neu rai o aelodau'r Gweithgor yn dod yn aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol. Bydd RWM yn aelod o'r Bartneriaeth a mater i'r Partïon â diddordeb fydd penderfynu a ydynt yn dymuno parhau. Ar ôl ei ffurfio, mater i aelodau'r Bartneriaeth fydd cytuno a ydynt yn dymuno cadw rôl y cadeirydd a'r hwylusydd annibynnol.

Dim ond os yw'r awdurdod(au) lleol yn yr Ardal Chwilio yn cytuno i gymryd rhan y gellir ffurfio a pharhau i weithredu Partneriaeth Gymunedol. Os oes mwy nag un awdurdod lleol yn yr Ardal Chwilio, rhaid gwahodd pob un i ymuno.

Os na fydd awdurdod lleol perthnasol yn cytuno i ymuno, neu'n penderfynu gadael y Bartneriaeth Gymunedol, ni fydd y tir yn ardaloedd y cyngor cymuned o fewn ei ffiniau bellach yn cael ei ystyried yn y broses leoli.

Gall y Gweithgor wahodd sefydliadau penodol i ymuno, yn ogystal â gwahodd ceisiadau drwy broses agored, a gall unrhyw un o'r Ardal Chwilio wneud cais. Dylai hyn gael ei gynnal mewn ffordd agored a thryloyw mewn proses i'w nodi gan y Gweithgor.

Gallai'r Gweithgor gynnig sut y byddai'n anelu at adlewyrchu'r gymuned o ran aelodaeth y Bartneriaeth Gymunedol. Er enghraifft, cyfran y lleoedd a gymerir gan sector penodol (cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, trigolion) neu gan grŵp demograffig neu ddiddordeb arbennig (er enghraifft: pobl ifanc, pobl hŷn, yr amgylchedd ac ati) neu'r rhai â nodweddion gwarchodedig (e.e. anabledd, hil neu grefydd). Gellid adlewyrchu hyn wedyn wrth nodi a dewis aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol. Gallai'r Grŵp hefyd ystyried beth sy'n arfer da yn hyn o beth.

Bydd ceisio sicrhau bod y Bartneriaeth Gymunedol yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yn fodd i amrywiaeth eang o faterion gael eu clywed a chasglu gwybodaeth eang yn yr un modd. Mae'n debygol o fod o fudd o ran casglu sylfaen sgiliau eang a rhwydweithio, a fydd yn fodd o hwyluso cyflwyno gwaith y Bartneriaeth Gymunedol.

Bydd darpar aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol yn cael eu nodi gan banel dethol o aelodau'r Gweithgor. Mae'n rhaid i'r panel dethol gynnwys y cadeirydd annibynnol, RWM ac unrhyw awdurdod lleol perthnasol ar y Gweithgor. Mae'n rhaid i'r broses ar gyfer dewis aelodau fod yn agored ac yn dryloyw. Penodir darpar aelodau i'r Bartneriaeth Gymunedol wrth arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth Gymunedol.

Gallwn ddarparu cymorth i helpu gyda'r broses ddethol os oes angen.

### Awdurdodau lleol perthnasol

**Rhaid gwahodd cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol perthnasol (e.e. awdurdodau unedol) i fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol.**

**Dim ond os bydd awdurdodau lleol perthnasol sy'n cynrychioli pob ardal cyngor cymuned yn yr Ardal Chwilio yn cytuno i gymryd rhan y bydd modd ffurfio Partneriaeth Gymunedol a pharhau i'w gweithredu.**

**Rhaid i'r holl Ardal Chwilio gael ei chynrychioli gan awdurdod lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol.**

**Os bydd awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu gadael y Bartneriaeth Gymunedol, sy'n golygu na fydd ardal cyngor cymuned mewn rhan o r Ardal Chwilio (neu, ar ôl ei nodi, y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad) yn cael ei chynrychioli mwyach gan awdurdod lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol, yna ni fydd yn rhan o r Ardal Chwilio Mwyach (na r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad).**

**Ni fydd cyfranogiad awdurdodau lleol perthnasol mewn Partneriaeth Gymunedol o reidrwydd yn cael ei chymryd fel arwydd o gefnogaeth i Gyfleuster Gwaredu Daearegol yn eu hardal.**

Gweithgor: prif gyfrifoldebau

## 3. Ymgysylltu ag awdurdodau lleol perthnasol

*Bydd rhaid i'r Gweithgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r prif awdurdodau lleol perthnasol yn yr Ardal Chwilio os nad ydynt wedi ymuno â'r Gweithgor.*

# Y Bartneriaeth Gymunedol

*Ystyrir y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn weithredol pan fydd y darpar aelodau wedi llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth Gymunedol.*

Ar y pwynt hwn bydd y Gweithgor yn dod i ben a bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cymryd yr awenau fel y cyfrwng ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.

Drwy gydol y broses, bydd llawer o wybodaeth i'w rhannu gyda'r gymuned dros gyfnod hir. Mae aelodau'r gymuned yn debygol o godi cwestiynau a materion wrth ystyried a ddylid cynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**Beth yw rôl y Bartneriaeth Gymunedol?**
Bydd darpar aelodau'r Bartneriaeth yn datblygu Cytundeb Partneriaeth Gymunedol sy'n nodi egwyddorion ynghylch sut bydd aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn gweithio gyda'i gilydd, eu rolau a'u cyfrifoldebau a sut gellid gwneud penderfyniadau (gweler tudalen 31) gan gynnwys sefydlu is-grwpiau perthnasol (tudalen 32).

Mae rôl y Bartneriaeth Gymunedol yn cynnwys:

- hwyluso trafodaeth gyda'r gymuned
- nodi'r wybodaeth berthnasol y mae pobl yn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned Allai Gynnig Lleoliad yn dymuno ei chael neu ei hangen am y broses
- bod yn brif gyfrwng ar gyfer deialog gymunedol gyda RWM;
- adolygu a mireinio ffiniau'r Ardal Chwilio wrth i ymchwiliadau RWM ddatblygu
- nodi blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Buddsoddi Cymunedol
- gwneud argymhellion i'r awdurdod(au) lleol perthnasol sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol ynghylch a ddylid defnyddio'r Hawl i Dynnu'n ôl, ac os a phryd y dylid lansio Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

**Beth yw prif gyfrifoldebau Partneriaeth Gymunedol?**
Rhestrir cyfrifoldebau allweddol y Bartneriaeth Gymunedol, sydd i'w cyflawni dros nifer o flynyddoedd, isod. Rydym yn edrych yn fanwl ar y rhain ar y tudalennau a ganlyn.

- **Cytuno ar Raglen o Weithgareddau** (gweler tudalen 32). Dyma set o weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal i ateb y cwestiynau a allai fod gan gymuned.
- **Rhannu gwybodaeth, gwrando ar gwestiynau'r gymuned a mynd i'r afael â nhw**
    - Datblygu rhaglen o ddeialog rheolaidd gyda'r gymuned i rannu gwybodaeth, ceisio barn a chael atebion i'r cwestiynau a godwyd
    - Sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol, yn ôl yr angen (tudalen 33)
    - Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol perthnasol (nad ydynt yn ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol) yn yr Ardal Chwilio ac awdurdodau lleol cyfagos
    - Chwilio am farn arbenigol annibynnol ar faterion technegol neu wyddonol sydd wedi eu herio a heb eu datrys os oes angen (tudalen 11)
    - Monitro barn y cyhoedd mewn perthynas â lleoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol o fewn yr Ardal Chwilio a barn y Gymuned Allai Gynnig Lleoliad
    - Trafod gwybodaeth a ddaw yn sgil gwerthusiadau o Ardal Chwilio ac ystyried effaith y canlyniadau ar y gymuned.

- **Cyllid Buddsoddi Cymunedol**
  - Sefydlu Panel Buddsoddi Cymunedol (tudalen 34)
  - Ystyried datblygu meini prawf lleol ar gyfer Cyllid Buddsoddi Cymunedol
  - Cysylltu'r blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Buddsoddi Cymunedol.
- **Hawl Cymunedol i Dynnu'n ôl a'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd**
  - Gwneud argymhellion i'r awdurdod(au) lleol perthnasol sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol ynghylch a ddylid defnyddio'r Hawl i Dynnu'n ôl, ac os a phryd y dylid cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd
  - Cytuno ar y mecanweithiau a ffafrir ar gyfer Hawl cymuned i Dynnu'n ôl o'r broses a'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

Cynigir cymorth i aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol ymgysylltu â'r broses. Gallai hyn gynnwys sesiynau briffio technegol ar y wyddoniaeth y tu ôl i waredu daearegol, er enghraifft.

Fel y corff cyhoeddus y mae'r Llywodraeth wedi ei benodi i gyflawni gwaredu daearegol mewn partneriaeth â chymuned sy'n cydsynio, byddwn ni yn RWM yn aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol, a rhan o'n rôl fydd cynorthwyo'r gymuned i gael gafael ar wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Er enghraifft, o blith ein timau technegol a gwyddonol ein hunain, neu gan bleidiau annibynnol a all helpu i ateb cwestiynau a mynd i'r afael â phryderon.

Wrth i'r broses fynd yn ei blaen, dylai'r Bartneriaeth Gymunedol anelu at sicrhau bod ei haelodaeth yn parhau i adlewyrchu'r gymuned. Mae'r Bartneriaeth yn debygol o esblygu a datblygu dros gyfnod y broses. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y Bartneriaeth eisiau diystyru rhai ardaloedd ac ystyried ardaloedd newydd nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen. Mae'n bosibl y bydd aelodau'r bartneriaeth yn camu i lawr yn achlysurol, gydag aelodau eraill o'r gymuned o fewn yr Ardal Chwilio yn cymryd eu lle.

Wrth i'r aelodau newydd ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol, dylid adolygu a diweddaru'r prosesau gwneud penderfyniadau yn y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol lle bo'n briodol.

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn parhau ar waith tra bod y gymuned honno'n rhan o'r broses, hyd at ac yn cynnwys y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, neu nes i'r gymuned neu RWM dynnu'n ôl o'r broses leoli.

**Ar ôl Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd**
Os ceir Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd (tudalen 42) o blaid cynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol, gall y Bartneriaeth drosglwyddo i fath gwahanol o grŵp cyswllt. Byddai hyn yn rhyngwyneb parhaus rhyngom ni yn RWM a'r gymuned. Mae'r grŵp cyswllt yn debygol o newid eto yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a chau'r cyfleuster dros y 100+ mlynedd nesaf.

## Datblygu Cytundeb Partneriaeth Gymunedol

*Bydd Cytundeb Partneriaeth Gymunedol yn nodi'r egwyddorion o ran sut bydd aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn gweithio gyda'i gilydd a'u rolau a'u cyfrifoldebau. Bydd y Cytundeb yn cael ei lofnodi gan aelodau unigol y Bartneriaeth.*

Ar ôl i'r Cytundeb Partneriaeth Gymunedol gael ei lofnodi, bydd Cyllid Buddsoddi Cymunedol o hyd at £1 miliwn fesul cymuned ar gael bob blwyddyn ar gyfer prosiectau, cynlluniau a mentrau yn yr Ardal Chwilio. (tudalen 34).

Gallai'r Cytundeb fod ar ffurf Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a dylai gynnwys:

- Cylch Gorchwyl y Bartneriaeth Gymunedol ac is-grwpiau (tudalen 32)
- y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol - er enghraifft, mecanweithiau pleidleisio posibl. Gall y Bartneriaeth Gymunedol neu'r is-grwpiau wneud y mwyafrif o'r penderfyniadau ond bydd yr awdurdodau lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol yn cymryd dau benderfyniad allweddol. Ganddynt hwy fydd y gair olaf o ran:
  - a ddylid ceisio tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses (drwy dynnu'n ôl o'r Bartneriaeth Gymunedol neu ddeddfu'r Hawl i Dynnu'n ôl)
  - os, neu pryd, y gofynnir am farn y gymuned ynghylch a yw'n dymuno cynnig lleoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol (h.y. bwrw ymlaen at Brawf Cefnogaeth y Cyhoedd)
- y broses ar gyfer datrys anghydfodau
- Rhaglen Weithgareddau amlinellol (tudalen 32) a sut bydd cynnydd o ran cwblhau'r gweithgareddau yn cael ei fonitro
- dulliau ar gyfer adrodd am waith / allbynnau unrhyw is-grŵp i'r gymuned
- mecanwaith arfaethedig ar gyfer dosbarthu Cyllid Buddsoddi Cymunedol, a fydd ar gael i gyllido prosiectau, cynlluniau a mentrau yn yr Ardal Chwilio
- mecanweithiau arfaethedig ar gyfer cynnal Hawl i Dynnu'n ôl y gymuned (tudalen 40) a'r Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd (tudalen 42) a'r weithdrefn ar gyfer defnyddio'r rhain.

Er nad oes angen i'r Cytundeb Partneriaeth Gymunedol fod yn gytundeb cyfreithiol, rydym yn cydnabod y gall aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar ddarpariaethau arfaethedig unrhyw Gytundeb.

Rhagwelir y bydd y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol yn cwmpasu'r cyfnod a ddaw yn union ar ôl sefydlu'r Bartneriaeth. Wrth i'r broses fynd rhagddi, mae'r Cytundeb yn debygol o esblygu a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, er enghraifft i adlewyrchu unrhyw newid yn aelodaeth neu weithgareddau'r Bartneriaeth Gymunedol.

ⓘ *Mae templed o Gytundeb Partneriaeth Gymunedol a Chylch Gorchwyl ar gael.*

## Sefydlu is-grwpiau

*Mae'n debyg y bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol reoli amrywiaeth eang o weithgareddau ac ymgysylltu ynghylch amrywiaeth eang o faterion mewn perthynas â Chyfleuster Gwaredu Daearegol posibl.*

Mae'n bosibl y bydd angen iddi ddatblygu sgiliau a gallu i fynd i'r afael â materion neu weithgareddau penodol a gesglir yn y Rhaglen Weithgareddau. Un ffordd o gyflawni hyn fyddai sefydlu is-grwpiau o'r brif Bartneriaeth Gymunedol.

Gellid pennu aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol i sefydlu neu gadeirio pob is-grŵp. Gellid pennu aelodau ychwanegol o'r is-grŵp o'r tu allan i'r Bartneriaeth Gymunedol, naill ai drwy broses agored neu gyfetholedig os yw'n briodol (h.y. yn ymuno â'r Bartneriaeth ar gyfer tasg neu gyfnod penodol o amser). Gall hyn fod am gyfnod cyfyngedig neu oherwydd bod ganddynt sgil arbennig, er enghraifft.

Dylai fod gan bob is-grŵp Gylch Gorchwyl i arwain ei weithgareddau a sicrhau bod ei waith yn dryloyw i'r gymuned. Dylid rhannu gwaith neu allbynnau'r grwpiau hyn gyda'r gymuned ehangach drwy ddulliau adrodd sefydledig y Bartneriaeth Gymunedol (a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol).

Un is-grŵp y bydd ei angen yw Panel Buddsoddi Cymunedol i benderfynu ar ddyrannu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol (tudalen 34).

Os yw'r Bartneriaeth Gymunedol yn sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol, fe all fod yn ddefnyddiol cael is-grŵp i'w reoli.

*Os bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol, gallai fod yn ddefnyddiol cael is-grŵp i reoli hyn.*

## Datblygu Rhaglen o Weithgareddau

*Rhaglen o Weithgareddau yw'r gwaith a wneir gan y Bartneriaeth Gymunedol er mwyn dysgu mwy am Gyfleuster Gwaredu Daearegol a beth allai hyn ei olygu i gymuned.*

Gallai'r gweithgareddau gynnwys:

- rhannu a thrafod rhaglen gwaith technegol RWM - er enghraifft, arolygon amgylcheddol a thraffig ac ymchwiliadau nad ydynt yn ymwthiol o'r ddaeareg, fel arolygon geoffisegol o'r awyr;
- ymateb i gwestiynau, materion neu bryderon y gallai cymunedau eu codi ynghylch y broses;
- meithrin gallu (cryfhau sgiliau, gwybodaeth a hyder) unigolion a grwpiau o fewn y gymuned - er enghraifft, y sgiliau i wneud cais am Gyllid Buddsoddi Cymunedol;
- comisiynu adroddiadau ar bynciau a allai fod o ddiddordeb i'r Bartneriaeth Gymunedol;
- rheoli a chydlynu cyfathrebiadau rhwng y Bartneriaeth Gymunedol a'r gymuned;
- ystyried sut gallai Cyfleuster Gwaredu Daearegol chwarae rhan mewn Gweledigaeth Gymunedol (gweler tudalen 37).

Bydd RWM yn monitro'r dangosyddion a fanylir yn y Rhaglen Weithgareddau i werthuso'r ymgysylltiad parhaus â'r gymuned. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, adolygu i ba raddau y mae ceisiadau am Gyllid Buddsoddi Cymunedol yn cael eu derbyn a phresenoldeb mewn cyfarfodydd Partneriaeth Gymunedol. Bydd dangosyddion monitro yn cael eu trafod gyda'r Bartneriaeth Gymunedol.



## Sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol

*Er mwyn ymgysylltu â'r gymuned, gallai'r Bartneriaeth Gymunedol sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol. Gallai hwn ymgysylltu â'r gymuned yn yr Ardal Chwilio yn ogystal ag ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Byddai'r Fforwm yn agored i unrhyw un, gyda'r nod o sicrhau bod pobl sydd eisiau gwybod mwy am waith y Bartneriaeth Gymunedol yn cael cyfle i wneud hynny.*

Gallai'r Fforwm fodoli ar-lein hefyd, yn gyfres o gyfarfodydd rheolaidd, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd cyhoeddus agored er enghraifft, neu gallai fod mewn ffurf arall o estyn allan at y gymuned. Dylai anelu at adlewyrchu amrywiaeth o ddiddordebau a ffyrdd y gall aelodau'r gymuned ryngweithio â'r broses. Byddai'n rhoi cyfle i aelodau'r gymuned godi cwestiynau a materion sydd o bwys iddynt, a allai wedyn gael eu bwydo i mewn i'r Rhaglen Weithgareddau. Er enghraifft, gallai'r pynciau i'w trafod gynnwys busnes, twristiaeth, addysg a sgiliau, os yw'r pynciau hyn yn berthnasol i'r Ardal Chwilio. Gallai hefyd lywio gweithrediadau'r Bartneriaeth Gymunedol. Dylai'r materion a godir gan y gymuned a gweithgareddau'r Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol fod yn gyhoeddus.

Bydd yn bwysig agor cyfranogiad cymunedol drwy nifer o gyfryngau. Gallai'r Bartneriaeth Gymunedol ystyried ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol, gwaith allgymorth pwrpasol gyda grwpiau penodol (er enghraifft, ymgysylltu â phobl ifanc drwy ysgolion a cholegau) a defnyddio rhwydweithiau presennol i gyrraedd pobl.

Gallai'r Fforwm fod yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i helpu gyda chynllunio gweithgareddau. Gallai'r gweithgareddau hyn amrywio o arolygon, cyfweliadau o ddrws i ddrws, gweithdai a chyfres o ddigwyddiadau lleol, gyda dewis i ymuno â gweithgareddau ar-lein.

Bydd hefyd yn bwysig ystyried sut i fynd i'r afael ag amrywiaeth, gan gynnwys gofynion ieithyddol dwyieithog, a materion hygyrchedd i hyrwyddo cynhwysiant pobl o fewn yr Ardal Chwilio neu Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad.

## Sefydlu Panel Buddsoddi Cymunedol

**Cyllid Buddsoddi Cymunedol**
Mae'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn cydnabod natur hirdymor y prosiect Cyfleuster Gwaredu Daearegol, a'r posibilrwydd na fydd y manteision sy'n gysylltiedig â swyddi, seilwaith a buddsoddiad mawr yn dod i'r amlwg nes bydd y prosiect wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn.

Bydd yr arian ar gael i ymgeiswyr, ar ffurf grantiau, mewn Ardal Chwilio pan fydd Cytundeb Partneriaeth Gymunedol wedi cael ei lofnodi. Yn y lle cyntaf, bydd gan gymuned fynediad at hyd at £1 miliwn y flwyddyn, yn codi i hyd at £2.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer cymunedau sy'n symud ymlaen i ymchwiliadau technegol lle mae angen tyllau turio dwfn.

Bydd RWM yn talu costau gweinyddu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol, a bydd hyn yn ychwanegol at y £1 miliwn neu £2.5 miliwn sydd ar gael fel Cyllid Buddsoddi Cymunedol.

Un is-grŵp o'r Bartneriaeth Gymunedol y bydd ei angen yw Panel Buddsoddi Cymunedol i helpu i ddyrannu'r arian hwn. Bydd y Panel yn cynnwys aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol, gan gynnwys ni ein hunain, ac aelodau cyfetholedig priodol os bydd angen.

Rôl y Panel Buddsoddi Cymunedol fydd:

- adolygu argymhellion ar gyfer cyllido prosiectau priodol o fewn yr Ardal Chwilio;
- cymeradwyo dyrannu cyllid ar gyfer ceisiadau prosiect sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi Gweithio gyda Chymunedau ac unrhyw faen prawf ychwanegol y cytunwyd arno gan y Bartneriaeth Gymunedol. (gweler tudalen 30).

Bydd RWM a'r Bartneriaeth Gymunedol yn annog grwpiau cymunedol a busnesau i gyflwyno ceisiadau o ansawdd da ar gyfer Cyllid Buddsoddi Cymunedol drwy Weinyddwr Cyllid.

Mae Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn ychwanegol at:

- Gyllid Ymgysylltu (tudalen 18) a ddefnyddir i hwyluso cyfranogiad cymunedau yn y broses;
- unrhyw gytundeb cyllido i liniaru effeithiau yn ystod y datblygiad fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio a;
- Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol a swyddi y bydd prosiect seilwaith mawr o'r math hwn yn eu cyflwyno i Gymuned sy'n Cynnig Lleoliad.

**Ar gyfer beth y gellir defnyddio Arian Buddsoddi Cymunedol?**
Fel y nodir ym mholisi Llywodraeth Cymru: Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau, gellir defnyddio Cyllid Buddsoddi Cymunedol i gyllido prosiectau, cynlluniau neu fentrau sy'n:

- gwella llesiant y gymuned - er enghraifft, gwelliannau i gyfleusterau cymunedol, gwella ansawdd bywyd neu iechyd a llesiant y gymuned;
- gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, yn enwedig lle gellir dangos manteision economaidd, er enghraifft, drwy dwristiaeth; neu;
- darparu cyfleoedd datblygu economaidd, er enghraifft cyfleoedd cyflogaeth, creu swyddi, datblygu sgiliau, addysg neu hyfforddiant, hyrwyddo menter leol, datblygu economaidd hirdymor neu arallgyfeirio economaidd.

Mae'n bosibl y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn dymuno datblygu meini prawf atodol neu leol y bydd y Panel Buddsoddi Cymunedol yn eu defnyddio i adolygu ceisiadau. Dylai ystyried gweledigaethau economaidd lleol, strategaethau neu gynlluniau economaidd-gymdeithasol er mwyn datblygu meini prawf o'r fath. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn dymuno ystyried ceisiadau am gyllid a allai helpu'r gymuned i gael rhagor o fanteision drwy'r posibilrwydd o gynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Gallai hefyd greu gwahanol ofynion ar gyfer grantiau o faint gwahanol a/neu brosiectau cyfalaf a refeniw.

Gall y meini prawf cyllido lleol ar gyfer buddsoddiadau cymunedol esblygu wrth i gymunedau symud drwy'r broses - er enghraifft, os yw'r Bartneriaeth Gymunedol yn newid yr Ardal Chwilio.

Mae'n rhaid i'r gwariant fod yn unol â chanllawiau *Managing Public Money* Trysorlys ei Mawrhydi a *Rheoli Arian Cyhoeddus* Cymru Llywodraeth Cymru, lle bo'n briodol; Cymorth gwladwriaethol; gofynion Polisi Economaidd-gymdeithasol yr NDA ac arferion gorau o ran sicrhau gwerth am arian. Cynigir arweiniad, cyngor a hyfforddiant llawn ar y materion hyn i'r rhai a allai fod ei angen.

Er bod swm blynyddol penodol o arian ar gael, rydym yn cydnabod y gallai rhai prosiectau fod angen cyllid am fwy na blwyddyn. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd ffactorau allanol a allai effeithio ar weithgareddau a gynlluniwyd a newid cyllideb flynyddol prosiectau. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cytuno ar y mecanwaith ar gyfer cyllido prosiectau aml-flynedd ar y cyd â'r Gweinyddwr Cyllid. Bydd cymorth ar gael i'r rhai a allai wneud ceisiadau am gyllid aml-flynedd er mwyn iddynt wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael a deall y risgiau cysylltiedig.

Yn RWM, ein rôl ar y Panel Buddsoddi Cymunedol fydd sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau sy'n gyson â gofynion polisi, cymorth gwladwriaethol ac sy'n cynnig gwerth am arian - h.y. bod allbynnau a chanlyniadau prosiectau yn cyfiawnhau lefel y cymorth grant y gofynnir amdano. Bydd RWM hefyd yn gyfrifol am y berthynas gytundebol gyda'r Gweinyddwr Cyllid.

**Gweinyddu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol**
Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Buddsoddi Cymunedol ac yn dirprwyo ei gyfrifoldeb am ddyrannu arian i'r Panel Buddsoddi Cymunedol.

Mae'n rhaid i Gyllid Buddsoddi Cymunedol gael ei weinyddu gan gorff sydd â'r statws cyfreithiol, y sgiliau a'r adnoddau priodol. Ni ragwelir y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn endid cyfreithiol ynddi'i hun, felly ni fyddai'n gallu rheoli'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol.

Gallai'r gwaith hwn gael ei gyflawni, er enghraifft, gan awdurdod lleol neu gwmni neu elusen addas, yn rhai cenedlaethol neu leol, a allai ddarparu'r gwasanaethau perthnasol. Gellid llunio rhestr dendro ar gyfer y comisiwn hwn gyda chymorth y Bartneriaeth Gymunedol, neu mae'n bosibl bod fframwaith caffael addas ar gael y gellid ei ddefnyddio.

Er mwyn penderfynu a allai corff fod yn addas i weinyddu'r arian, y math o wybodaeth y gallem geisio ei chynhyrchu yw:

- nodi cyrff gweinyddu cyllid (er enghraifft, elusennau, sefydliadau'r sector cyhoeddus neu gwmnïau cyfyngedig, ac ati);
- enghreifftiau o gyllid o dan weinyddiaeth leol;
- enghreifftiau o brosesau ceisiadau am gyllid ac asesu a ddefnyddir gan gyrff gweinyddu cyllid;
- trosiant blynyddol cyrff gweinyddu cyllid;
- nifer y gweithwyr sydd gan gyrff gweinyddu cyllid;
- argaeledd adroddiadau blynyddol ac archwiliadau cyrff gweinyddu cyllid.

Gellir cyflwyno'r dadansoddiad hwn ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol i benderfynu a yw unrhyw un o'r cyrff a nodir yn meddu ar y gallu i ddiwallu anghenion y Bartneriaeth Gymunedol, gan gynnwys ni ein hunain yn RWM.

Bydd RWM yn contractio Gweinyddwr Cyllid ar ran y Bartneriaeth Gymunedol.

Bydd sefydliadau sy'n cynnig cynlluniau, prosiectau a mentrau o'r Ardal Chwilio yn gwneud cais i'r Gweinyddwr Cyllid am Gyllid Buddsoddi Cymunedol. Bydd y Gweinyddwr yn asesu cynigion yn erbyn y blaenoriaethau a bennwyd gan y Bartneriaeth Gymunedol ac yn gwneud argymhellion i'r Panel Buddsoddi Cymunedol a fydd yn adolygu a dyrannu cyllid. Bydd y Gweinyddwr Cyllid yn gwneud taliadau i ymgeiswyr, yn unol â'r cytundeb cyllido perthnasol.

**Gwneud cais am gyllid**
Unwaith y bydd y Bartneriaeth Gymunedol wedi sefydlu ei meini prawf cyllido, bydd yn cyhoeddi canllawiau manwl, yn benodol i ardal leol, ar gyfer ymgeiswyr, ynghyd ag unrhyw ddeunydd perthnasol arall i alluogi sefydliadau i wneud cais am gyllid. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cael y cymorth angenrheidiol i wneud hyn.

Mae enghreifftiau o'r math o arweiniad y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl, neu y gallant ofyn amdano, yn cynnwys:

- esboniad o'r mathau o gyllid sydd ar gael a'r meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau;
- cwblhau ffurflenni ymholi ac ymgeisio;
- gofynion ar gyfer dogfennau ategol;
- gofynion monitro;
- gofynion cyhoeddusrwydd;
- adrodd a chofnodi allbynnau a chanlyniadau;
- ffynonellau posibl o gyllid ychwanegol.

**Cyd-gyllido ar gyfer cynlluniau, prosiectau a mentrau**
Nid oes unrhyw ofyniad y bydd angen cyllid cyfatebol (e.e. cyllid ychwanegol i gyd-fynd â'r arian Cyllid Buddsoddi Cymunedol) er mwyn cael mynediad at Gyllid Buddsoddi Cymunedol. Gellid defnyddio unrhyw grant a gafwyd o'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol i ddenu arian o ffynonellau eraill.

*Gall y meini prawf cyllido lleol ar gyfer buddsoddiad cymunedol esblygu wrth i gymunedau symud drwy'r broses, er enghraifft os bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn newid yr Ardal Chwilio.*

**Am ba hyd y mae Cyllid Buddsoddi Cymunedol ar gael?**
Bydd Cyllid Buddsoddi Cymunedol a'r Cyllid Ymgysylltu i'w weinyddu ar gael cyhyd â bod y Bartneriaeth Gymunedol yn rhan o'r broses leoli.

Os bydd y gymuned yn tynnu'n ôl o'r broses, neu os bydd RWM yn tynnu'n ôl o gymuned, bydd y Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn dod i ben yn y gymuned honno. Bydd unrhyw ymrwymiad sydd eisoes wedi ei wneud hyd at hynny yn cael ei anrhydeddu am weddill y flwyddyn ariannol.

**Monitro ac adrodd**
Bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol weithredu mewn ffordd sy'n ennyn hyder y gymuned. Er mwyn gwneud hyn, fe allai fod yn ddefnyddiol mabwysiadu rhai o'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu i Elusennau[17] a saith 'Egwyddor Nolan'[18] o ran bywyd cyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r Gweinyddwr Cyllid a ddewiswyd gydymffurfio â'r egwyddorion hyn yn barod, yn dibynnu ar ei statws cyfreithiol.

Bydd angen goruchwyliaeth a gwaith cyfrifo priodol ar gyfer y Cyllid Buddsoddi Cymunedol, yn unol â'r holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol perthnasol ac o du'r Llywodraeth sy'n berthnasol i reoli arian cyhoeddus.

Bydd gofyn i bob prosiect sy'n derbyn buddsoddiad adrodd am eu hallbynnau, eu canlyniadau a'u cynnydd i'r Panel Buddsoddi Cymunedol drwy eu Gweinyddwr Cyllido fel rhan o gytundeb cyllido. Gall y Bartneriaeth Gymunedol wedyn ddefnyddio'r adroddiadau hyn i gyhoeddi adroddiad diwedd blwyddyn ar y gweithgarwch a gefnogwyd. Yn ogystal, byddwn yn adrodd ar Gyllid Buddsoddi Cymunedol bob blwyddyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy ein rhiant-gorff, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

Rôl RWM fydd sicrhau bod Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn gweithredu yn unol â Safon Weithredol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Grantiau Cyffredinol[19] a chanllawiau grantiau Llywodraeth Cymru, lle bo'n briodol[20]

**Archwiliad blynyddol**
Bydd y Gweinyddwr Cyllid ar gyfer y Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn destun archwiliad allanol ac annibynnol blynyddol. Diben hyn yw dangos sut mae'r arian wedi cael ei wario a'r rheolaethau ariannol maent wedi eu defnyddio i reoli'r arian yn effeithiol. Byddwn yn gweithio gyda'r Gweinyddwr Cyllid i sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol a Llywodraethol perthnasol ar gyfer rheoli arian cyhoeddus yn cael eu hadlewyrchu yn ei ymagwedd at weinyddu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol.

Gall y Gweinyddwr Cyllid ymgysylltu â'r archwilydd annibynnol allanol, neu bydd cymorth trydydd parti ar gael i'w wneud ar ran y gweinyddwr. Disgwylir i'r gweinyddwr adrodd ar wariant a chanlyniadau'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol fel rhan o'i adroddiad blynyddol statudol ei hun.

**Gwerthuso Cyllid Buddsoddi Cymunedol**
Gan fod RWM yn atebol am ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon, mae'n bosibl y byddwn ni'n comisiynu gwerthusiad o wariant a deilliannau o Gyllid Buddsoddi Cymunedol o bryd i'w gilydd. Gellir ei ddefnyddio i ddangos gwerth am arian y cyllid a'i gyflawniadau mewn perthynas â'r Cytundeb Partneriaeth Gymunedol. Gall hefyd ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol yn gyffredinol am berfformiad ac effaith Cyllid Buddsoddi Cymunedol.

Gallai'r gwerthusiad, er enghraifft, ddigwydd:

- bob blwyddyn mewn cymunedau lle mae'r broses ar y gweill
- pan fydd Partneriaeth Gymunedol yn mynd ymlaen i'r cam Nodweddu Safleoedd. Gallai'r gwerthusiad hwn gynnwys unrhyw ofyniad i newid nodau'r cyllid ac unrhyw gapasiti sydd ei angen i gyflawni'r cynnydd sylweddol mewn cyllid
- wrth i gymuned dynnu'n ôl o'r broses neu os ydym yn tynnu'n ôl o'r gymuned. Gallai'r gwerthusiad hwn ganolbwyntio ar effaith ac effeithiolrwydd y Cyllid Buddsoddi Cymunedol
- Bydd yr holl adroddiadau gwerthuso'n cael eu cyhoeddi i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd y Bartneriaeth Gymunedol a'r Panel Buddsoddi Cymunedol. Bydd cefnogaeth ar gael gan RWM i gynorthwyo â hyn.

## Iawndal eiddo

*Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall cymunedau fod yn pryderu ynglŷn ag effeithiau posibl seilwaith gwaredu daearegol ar brisiau eiddo yn yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau seilwaith mawr yn cynnwys gwneud darpariaeth ar gyfer darparu iawndal i drigolion lleol a pherchenogion eiddo sy'n gweld sgil-effaith ar werth eu heiddo o ganlyniad i adeiladu'r seilwaith newydd.*

Byddwn yn ymgymryd â gwaith gyda Phartneriaethau Cymunedol yn y broses o leoli i asesu a yw'n debygol y bydd unrhyw effaith ar brisiau eiddo lleol, ac yn ystyried a fyddai cynllun cymorth eiddo yn briodol. Unwaith y bydd y gwaith asesu hwn wedi cael ei gwblhau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud a bydd ymagwedd briodol yn cael ei mabwysiadu ar gyfer pob cymuned.

[17] *Cod Llywodraethu i Elusennau:* ***https://www.charitygovernancecode.org/cy/cod-llywodraethu-i-elusennau?set_language=cy***
[18] *Egwyddorion Nolan:* ***https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life***
[19] *Safon Weithredol y Llywodraeth ar gyfer Grantiau Cyffredinol:* ***https://www.gov.uk/government/publications/grants-standards***
[20] ***https://beta.gov.wales/welsh-government-grants-guidance***



## Gweledigaeth Gymunedol

*Bydd penderfynu ar safle addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cymryd nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod cyfle go iawn i gymuned feddwl am sut gallai Cyfleuster Gwaredu Daearegol fod o fudd i'r gymuned honno dros y tymor hir.*

Bydd y broses o adeiladu Gweledigaeth Gymunedol yn helpu'r gymuned i nodi a mynegi beth sy'n bwysig. Gallai cymunedau greu gweledigaeth sy'n ategu polisïau, strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol perthnasol sy'n bodoli'n barod.

Bydd sefydlu'r weledigaeth hon yn bwysig gan y gallai gyfrannu at y Rhaglen Weithgareddau a helpu i ddylanwadu ar y blaenoriaethau ar gyfer Cyllid Buddsoddi Cymunedol.

Disgwylir i Gyfleuster Gwaredu Daearegol ddod â manteision sylweddol i gymuned. Gallai'r manteision hyn ddod o nifer o ffynonellau:

- mae'n debyg y bydd buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith lleol fel rhwydweithiau ffyrdd, rheilffyrdd, pŵer a band eang er mwyn galluogi adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol, ac mae'n bosibl y gallai Cyfleuster Gwaredu Daearegol agor cyfleoedd ar gyfer datblygu tai newydd a gwasanaethau cymunedol;
- mae'n debygol y bydd Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cynhyrchu cannoedd o swyddi â thâl da bob blwyddyn am dros 100 mlynedd ym meysydd adeiladu, peirianneg, diogelwch a rheoli prosiectau; mae cyfle i bobl yn y gymuned ymgymryd â swyddi a sgiliau a'u datblygu;
- bydd adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn golygu y bydd angen cadwyn gyflenwi fawr, gwerth uchel, y gellid ei lleoli yn y rhanbarth o gwmpas y Cyfleuster Gwaredu Daearegol, gan greu swyddi anuniongyrchol pellach
- gallai gweithredu'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn llwyddiannus olygu'r angen am nifer o gyfleusterau gwerth uchel cysylltiedig fel Ymchwil a Datblygu, canolfannau ar gyfer hyfforddi ac ymwelwyr, y gellid eu lleoli yn y gymuned a'r cylch ehangach ac a allai gyfrannu swyddi gwerth uchel ychwanegol
- mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i ddarparu Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol yn y gymuned sy'n cynnal y Cyfleuster Gwaredu Daearegol, a fydd yn ategu Gweledigaeth y Gymuned.

Yn achos Cyfleuster Gwaredu Daearegol, dylai'r amserlen a'r lefelau buddsoddi tymor canolig a hirdymor annog y gymuned i feddwl am welliannau sylweddol y gallent ddymuno eu gweld yn eu hardal.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i ddarparu Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol (tudalen 43) yn y gymuned sy'n cynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol, i helpu i fanteisio i'r eithaf ar y manteision economaidd. Gallai'r Weledigaeth Gymunedol ragweld y buddsoddiad hwn gan y bydd yn sylweddol - yn debyg i brosiectau Cyfleuster Gwaredu Daearegol rhyngwladol eraill - a gallai gyfrannu at fanteision rhwng y cenedlaethau i'r gymuned. Bydd y buddsoddiad hwn yn ychwanegol at unrhyw gytundeb i liniaru effeithiau o ganlyniad i waith datblygu, y Cyllid Ymgysylltu a ddarperir i hwyluso ymgysylltu â'r gymuned a'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol.

# Nodweddu Safleoedd

*Nodweddu Safle yw pan fydd daeareg ardal yn cael ei harchwilio gan ddefnyddio tyllau turio dwfn (h.y. yn ddyfnach na 150 metr) fel y gallwn benderfynu pa mor addas ydyw i gynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol.*

Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol fydd penderfynu pa safle neu safleoedd sy'n mynd ymlaen i'r cam Nodweddu Safle ar gyfer ymchwiliad tyllau turio dwfn. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ein hargymhelliad, gan ystyried y ffactorau a ddefnyddir yn ein gwerthusiadau. Gellir cymharu safleoedd os oes nifer o safleoedd posibl. Byddwn yn rhannu ein hargymhellion a'r rhesymau drostynt gyda'r gymuned drwy'r Bartneriaeth Gymunedol.

Mae Nodweddu Safleoedd yn broses a all gymryd rhwng 10 a 15 mlynedd. Y rheswm am hyn yw y bydd angen cael gwybodaeth fanwl am addasrwydd posibl safle i gynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol ac asesu diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi data o'r gwaith drilio a phrofi tyllau turio dwfn. Yn ystod y gwaith Nodweddu Safleoedd byddwn yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud cais am y gwahanol ganiatadau sydd eu hangen ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

Bydd gwell dealltwriaeth o ardal a ddarperir drwy'r Rhaglen Weithgareddau a gweithgareddau gwerthuso safleoedd yn ein galluogi i ddatblygu dyluniadau ac asesiadau diogelwch sy'n benodol i'r safle ar gyfer strwythurau ar yr wyneb a than y ddaear y Cyfleuster Gwaredu Daearegol.



## Nodi Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad

*Mae'r term 'Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad ' yn diffinio'r ardal ddaearyddol lle gellid lleoli Cyfleuster Gwaredu Daearegol arfaethedig yn y pen draw. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cytuno ar y Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd dros amser o fewn yr Ardal Chwilio fel rhan o'r broses Nodweddu Safleoedd.*

Pwrpas nodi'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yw egluro pwy allai gymryd rhan mewn Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd terfynol i gadarnhau a yw'r gymuned yn rhoi ei chaniatâd ai peidio i adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol mewn safle penodol, yn amodol ar ganiatâd cynllunio a mathau eraill o ganiatâd.

Bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cael ei diffinio gan ardaloedd cynghorau cymuned lle byddai'r canlynol yn cael eu lleoli:

- elfennau arfaethedig ar yr wyneb ac o dan y ddaear cyfleuster gwaredu daearegol
- unrhyw ddatblygiad cysylltiedig sy'n berthnasol i'r cyfleuster gwaredu daearegol ac unrhyw dir sydd ei angen i liniaru effeithiau
- cysylltiadau/llwybrau trafnidiaeth o safle'r cyfleuster gwaredu daearegol arfaethedig i'r porthladd, y pen rheilffordd neu'r prif rhwydwaith ffyrdd agosaf (h.y. hyd at lle mae is-ffyrdd yn cwrdd â'r ffyrdd A agosaf)
- effeithiau ffisegol uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau dan y ddaear, ac adeiladu a gweithredu cyfleuster gwaredu daearegol (a nodir drwy waith asesu amgylcheddol a wneir i ategu ein hymgysylltiad â chymunedau a'n ceisiadau am ganiatâd cynllunio).

Mae'n debygol y bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cynnwys nifer o ardaloedd cynghorau cymuned. Mae'n bosibl y byddant o fewn un awdurdod lleol, neu gallent groesi ffiniau awdurdodau lleol. Bydd y Gymuned Gynnal bosibl yn adlewyrchu unrhyw newid i'r ffiniau ardal cynghorau cymuned a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Os yw ffin y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn agos at ffiniau awdurdodau lleol eraill, bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol ystyried ymgysylltu â phobl o fewn yr awdurdodau cyfagos. Fodd bynnag, ni fyddent yn cael dweud eu dweud yn y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

Unwaith y bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad wedi cael ei nodi, gellid blaenoriaethu ceisiadau am Gyllid Buddsoddi Cymunedol i'w dosbarthu o fewn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, os yw'r Bartneriaeth Gymunedol o'r farn bod hynny'n briodol.

Bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, yn gymwys i gael Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol os caiff ei dewis i gynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol (gweler tudalen 43 am ragor o wybodaeth am Fuddsoddiadau Ychwanegol Sylweddol). Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw gyllid ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio sy'n gysylltiedig â lliniaru effeithiau o ganlyniad i ddatblygiadau, y Cyllid Buddsoddi Cymunedol a Chyllid Ymgysylltu a ddarperir yn ystod y broses leoli. O'r herwydd, rydym yn rhagweld y gallai'r gymuned fod eisiau datblygu ei Gweledigaeth Gymunedol ymhellach.

## Diwedd Nodweddu Safleoedd

*Byddwn yn ceisio nodi safle (neu safleoedd) penodol i leoli elfennau ar yr wyneb a than y ddaear y Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu dyluniadau lleoliad ac asesiadau diogelwch ar gyfer y strwythurau ar yr wyneb a than y ddaear.*

Caiff ein gwerthusiadau eu cofnodi mewn adroddiad, a fydd wedi ei lywio drwy drafodaethau gyda'r Bartneriaeth Gymunedol.

Cyn y bydd RWM yn gwneud cais ffurfiol am gymeradwyaeth rheoleiddiol a chaniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol, mae'n rhaid i'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad ddangos yn ffurfiol ei pharodrwydd i gynnal y Cyfleuster. Bydd hyn yn cael ei gyflawni os bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cyflwyno Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd o blaid cynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol. (tudalen 42).

**Os yw mwy nag un safle'n gysylltiedig**
Nod Nodweddu Safleoedd yw gallu asesu'n hyderus addasrwydd safle (neu safleoedd) ar gyfer adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

Er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynegi mewn polisi mai'r dewis y mae'n ei ffafrio yw adeiladu a gweithredu un Cyfleuster, nid yw wedi gwrthod y syniad o gael mwy nag un, os oes angen.

Os bydd mwy nag un safle ynghlwm, bydd pob Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn rhedeg Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Os yw pob un yn dychwelyd canlyniad o blaid cynnig lleoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol, yna gellir gwneud cymhariaeth yn seiliedig ar ein gwerthusiad rhwng y safleoedd. Gellid defnyddio hyn i lywio ein gwaith o ddewis safle.

# Hawl i Dynnu’n Ôl

*Gall cymuned dynnu'n ôl o'r broses leoli hyd at y pwynt y cymerir Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, am unrhyw reswm.*

Caiff unrhyw awdurdod lleol perthnasol sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol ddirwyn y broses leoli i ben yn yr ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau, naill ai drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu drwy alw Hawl i Dynnu'n Ôl i rym.

Os bydd cymuned yn tynnu'n ôl o'r broses yna bydd unrhyw weithgaredd gennym ni yn dod i ben yn yr ardal berthnasol, gan gynnwys argaeledd Cyllid Buddsoddi Cymunedol. Bydd unrhyw Gyllid Buddsoddi Cymunedol sydd eisoes wedi cael ei ddyrannu neu wedi ei ymrwymo yn cael ei anrhydeddu o fewn y flwyddyn ariannol honno.

Mae'n bosibl y bydd gan y Bartneriaeth Gymunedol bryderon ynglŷn â pharhau â’r broses neu, drwy fonitro barn y cyhoedd, mae'n bosibl y bydd o'r farn nad oes gobaith realistig o feithrin cefnogaeth ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y gymuned.

Lle mae pryderon, bydd y Bartneriaeth Gymunedol, gan ein cynnwys ni yn RWM, yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael â'r rhain, cyn ystyried tynnu'n ôl o'r broses. Bydd cyfryngu annibynnol ar gael os bydd angen, er mwyn helpu i sicrhau bod materion yn cael eu deall yn llawn a'u trin mor hwylus â phosibl.

Yr awdurdodau lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn cymryd y penderfyniad ynghylch a ddylid tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses. Pan fo mwy nag un awdurdod lleol perthnasol yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol, bydd modd iddynt ddirwyn y broses leoli i ben yn yr ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau, naill ai drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu drwy weithredu Hawl i Dynnu’n Ôl.

Gallai'r awdurdod(au) lleol perthnasol benderfynu ceisio barn y gymuned ynghylch a ddylid tynnu'n ôl o'r broses, neu gallant wneud y penderfyniad eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n arfer da i'r awdurdodau lleol ymgynghori â'r gymuned neu aelodau eraill o'r Bartneriaeth Gymunedol ynghylch y cwestiwn a ddylid arfer yr Hawl i Dynnu'n Ôl.

Er mai'r awdurdod(au) lleol perthnasol biau’r gair olaf o ran arfer Hawl Tynnu'n Ôl ai peidio, dylai gynnwys aelodau eraill o’r Bartneriaeth Gymunedol mewn trafodaethau ynghylch a ydynt yn bwriadu tynnu’r gymuned yn ôl o’r broses ai peidio. Yn yr un modd, dylai'r aelodau eraill o’r Bartneriaeth Gymunedol allu gwneud argymhellion i'r awdurdod(au) lleol perthnasol ynghylch y Bartneriaeth Gymunedol yn gweithredu'r Hawl i Dynnu’n Ôl.

Os yw'r awdurdodau lleol perthnasol yn cytuno y dylai'r penderfyniad i dynnu'r gymuned yn ôl o'r broses gynnwys trigolion yr Ardal Chwilio (neu'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad os yw hon wedi cael ei nodi erbyn yr amser y caiff tynnu'n ôl ei ystyried), yna bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn ei chyfanrwydd yn penderfynu ar y modd o geisio barn y gymuned ar y posibilrwydd o dynnu'n ôl. Dylid nodi barn y Bartneriaeth Gymunedol ar ba fecanwaith y gellid ei defnyddio ar gyfer hyn yn y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol, y gellir ei ddiweddaru wrth i farn ar hyn ddatblygu dros amser.



# Dod o hyd i safle addas a chymuned barod

Er y byddwn ni yn RWM yn aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol, ni fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw'r gymuned yn arfer ei Hawl i Dynnu'n Ôl.

Mae tri phrif fecanwaith a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer penderfyniadau o'r math hwn:

1. Refferendwm Lleol
2. Ymgynghoriad Ffurfiol
3. Pleidleisio cynrychioliadol ystadegol.

Gall y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol nodi'r mecanwaith a ffafrir. Mae'n bosibl y bydd mecanweithiau newydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol, a gall dewisiadau o ran sut i arfer Hawl y gymuned i Dynnu'n Ôl esblygu dros amser.

Yn RWM, mae gennym hefyd y gallu i dynnu'n ôl o'r broses mewn cymuned benodol. Bydd RWM yn dryloyw o ran ei resymau dros dynnu'n ôl o gymuned.

Er enghraifft, gallem dynnu'n ôl o'r broses:

- os yw gwybodaeth dechnegol yn dangos nad oes potensial erbyn hynny i ddod o hyd i safle addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn yr Ardal Chwilio neu'r Allai Gynnig Lleoliad
- os ydym o'r farn bod safleoedd/ardaloedd amgen a allai, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â safleoedd/ardaloedd posibl eraill, ddarparu rhagor o hyder i gyflawni Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn llwyddiannus
- os daeth yn amlwg nad oedd cymuned yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses erbyn hynny, neu ei bod yn amlwg y byddai'n anodd cyflawni Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd o blaid cynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y gymuned honno.

Os byddwn yn penderfynu tynnu'n ôl, bydd y broses ac unrhyw weithgaredd gennym ni yn dod i ben yn yr ardal berthnasol, gan gynnwys argaeledd Cyllid Buddsoddi Cymunedol. Bydd unrhyw Gyllid Buddsoddi Cymunedol sydd eisoes wedi cael ei ddyrannu neu wedi ei ymrwymo yn cael ei anrhydeddu o fewn y flwyddyn ariannol honno.

How RWM will work in partnership with communities

# Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd

# 6. Test of Public Support

*Cyn ein bod mewn sefyllfa i wneud argymhelliad ynglŷn ag addasrwydd safle neu safleoedd penodol, mae'n rhaid cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd ymysg y bobl sy'n byw yn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Gwneir hyn i sicrhau bod y gymuned berthnasol wedi dangos yn glir ei bod wedi rhoi ei chaniatâd i gynnal Cyfleuster Gwaredu Daearegol cyn i'r safle a ffafrir gael ei nodi a chyn y gallai unrhyw ddatblygiad fynd yn ei flaen, yn ddarostyngedig i gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.*

Dim ond un cyfle fydd i gynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd mewn unrhyw Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Os yw'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn nodi nad yw'n fodlon cynnig lleoliad ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol, bydd y broses yn dod i ben yn y gymuned honno.

Bydd yr awdurdod(au) lleol perthnasol sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol yn gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd, ac os felly, pryd. Os oes mwy nag un awdurdod lleol perthnasol yn rhan o'r Bartneriaeth, yna mae'n rhaid iddynt gytuno i gynnal y Prawf er mwyn i'r ardaloedd cynghorau cymuned o fewn eu ffiniau gael eu cynnwys yn y Prawf.

Ni fydd awdurdod lleol nad yw'n aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol yn gallu cael rôl ffurfiol yn y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

Er y bydd gan yr awdurdodau lleol perthnasol y gair olaf, dylent gynnwys aelodau eraill o'r Bartneriaeth Gymunedol mewn trafodaethau ar amser priodol i lansio Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd. Yn yr un modd, dylai'r aelodau eraill o'r Bartneriaeth Gymunedol allu gwneud argymhellion i'r awdurdod(au) lleol perthnasol sy'n rhan o'r Bartneriaeth ynghylch amseriad y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol, yn ei chyfanrwydd, yn penderfynu ar y dull a ddefnyddir ar gyfer y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd terfynol. Dylid nodi barn y Bartneriaeth ar ba fecanweithiau y gellid eu defnyddio ar gyfer hyn yn y Cytundeb Partneriaeth Gymunedol. Gellir diweddaru'r Cytundeb wrth i farn ar hyn ddatblygu dros amser.

Dim ond ar ôl ymgysylltiad helaeth â'r gymuned y byddai Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd yn cael ei gynnal, a fydd yn golygu bod y gymuned wedi cael amser i ofyn cwestiynau, codi pryderon a dysgu am Gyfleuster Gwaredu Daearegol.

Dylid hysbysu cymunedau mewn awdurdodau lleol cyfagos, ond ni fyddai modd iddynt gymryd rhan yn y Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd.

**Mecanweithiau ar gyfer cynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd**
Mae tri phrif fecanwaith a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer penderfyniadau o'r math hwn: refferendwm lleol, ymgynghoriad ffurfiol a phleidleisio cynrychioliadol ystadegol.

Mae'n bosibl y bydd mecanweithiau newydd yn dod i'r amlwg, a gall dewisiadau o ran sut i gynnal Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd esblygu dros amser.

Pa bynnag ddull sy'n cael ei ddefnyddio, mae'n bwysig ei fod yn dilyn arferion da i helpu i sicrhau hygrededd. Mae hyn yn berthnasol i'r dull a ddefnyddiwyd a sut gofynnir y cwestiwn. Bydd gan sefydliadau fel y Comisiwn Etholiadol arweiniad ar sut i gyflawni hyn.

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cyfathrebu canlyniadau'r Prawf ac yn egluro beth fyddai'r camau nesaf.

# Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol

*Os rhoddir pob caniatâd a chymeradwyaeth angenrheidiol, cawn fwrw ymlaen ag adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Bydd Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol ar gael i gymuned y safle a ddewiswyd ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol.*

Bydd y buddsoddiad hwn - a fydd yn disodli'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol - yn gwella'r manteision economaidd sylweddol sy'n rhan annatod o gynnal prosiect seilwaith mawr ac yn cydnabod ymrwymiad hirdymor y gymuned tuag at fudd y genedl.


Gallai buddsoddiad gynnwys gwella capasiti addysg a sgiliau lleol, seilwaith trafnidiaeth gwell neu gyfleusterau hamdden gwell.

Mae'n ychwanegol at y buddsoddiad a'r swyddi a ddaw i ardal i ganlyn prosiect seilwaith mawr o'r math hwn. Mae hefyd yn ychwanegol at unrhyw gyllid ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio sy'n gysylltiedig â lliniaru effeithiau o ganlyniad i ddatblygiadau, y Cyllid Buddsoddi Cymunedol a Chyllid Ymgysylltu a ddarperir yn ystod y broses.

Mae hefyd yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar ddiwydiannau gwasanaethau lleol sy'n ategu'r cyfleuster a'i weithlu.

Bydd RWM yn gweithio fel rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol i helpu i integreiddio Cyfleuster Gwaredu Daearegol â'i Weledigaeth Gymunedol, a beth allai hyn ei olygu o ran y Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol.

Bydd y buddsoddiad hwn yn sylweddol - yn debyg i brosiectau Cyfleuster Gwaredu Daearegol rhyngwladol eraill.



# Adran 3

# Rhagor o wybodaeth a chysylltu â ni

# Cysylltu â ni

*Mae'n bosibl eich bod yn Barti â Diddordeb neu mae'n bosibl eich bod chi'n aelod o'r gymuned sydd wedi clywed am y prosiect hwn yn y newyddion neu drwy ffrindiau a theulu. Mae'n bosibl y byddwch chi eisiau rhagor o wybodaeth - neu mae'n bosibl y byddwch chi eisiau cael gwybod sut gallech chi neu eich cymuned gymryd rhan. Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi ddod i wybod mwy, a chroesawn sgyrsiau gydag unrhyw un ar unrhyw adeg.*

**Ein gwefan**
Mae ein gwefan yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth am ein gwaith ac mae'n cynnwys dolenni i fideos, ffeithluniau ac adroddiadau manwl. Ein gwefan yw: **gwaredu daearegol**

**Anfonwch neges e-bost atom ni**
Os hoffech chi ofyn cwestiwn penodol i ni, gallwch anfon neges e-bost atom:
**GDFEnqCymru@nda.gov.uk**

**Ffoniwch ni**
Os hoffech chi siarad gyda rhywun, gallwch hefyd ein ffonio ni ar 0300 0660100 rhwng 9.00am a 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc).

**Ysgrifennwch atom ni**
Os hoffech chi ysgrifennu atom, gallwch gysylltu â ni yn:
GDF Enquiries
Building 587, Curie Avenue
Harwell Campus
Didcot
OX11 0RH.

**Aelodau'r wasg**
Ar gyfer pob ymholiad gan y cyfryngau, ffoniwch ein tîm cyfryngau ac ymgyrchoedd ar:
01925 802830 (oriau swyddfa)
07803 495577 (y tu allan i oriau)

**Ein hymrwymiad i chi**
Ein nod yw ymateb i bob cysylltiad â ni o fewn 10 diwrnod gwaith.

Mae'n bosibl y cysylltir â chi ac y gofynnir am eich barn chi ar y gwasanaeth a gewch. Byddem yn gwerthfawrogi eich adborth gonest gan y bydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i wella'r gwasanaeth a ddarparwn. Byddwn yn dysgu gwersi ac yn adolygu'r gwasanaeth a ddarparwn i chi yn barhaus. Rhan bwysig o hyn yw sicrhau bod ein staff wedi eu hyfforddi'n llawn. Byddwn yn defnyddio recordiadau o alwadau ffôn, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol a llythyrau a dderbyniwn, i hyfforddi ein staff, ac ni fydd modd adnabod yr unigolion a fydd yn rhan o'r recordiadau.

**Gwneud cwyn**
Os ydych chi'n anfodlon â'r gwasanaeth a gawsoch gennym, gallwch wneud cwyn ffurfiol i ni. Bydd y mater yn cael ei archwilio gan rywun nad yw wedi delio â chi o'r blaen. I gofrestru eich cwyn gyda ni, e-bostiwch, ffoniwch neu ysgrifennwch atom.

**Ceisiadau am wybodaeth**
Gallwch ofyn am wybodaeth gennym o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 2018.

**Eich data**
Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol fel eich enw a'ch manylion cyswllt, y dull gorau o gysylltu â chi, ac ati. Mae hyn yn ein galluogi i gadw cofnod o'ch ymgysylltiad â ni ac yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth mwy personol i chi os dewiswch gysylltu eto. Nid oes yn rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth i ni, ac mae manylion am ein **Siarter Gwybodaeth Bersonol**[21] ar gael ar ein gwefan. Mae'r Siarter yn egluro sut byddwn yn storio ac yn defnyddio eich data personol. Mae'r polisi hefyd yn esbonio sut gallwch wneud cais am gopi o'r wybodaeth amdanoch sydd yn ein meddiant.

Os nad ydych chi'n teimlo bod eich data yn cael ei reoli'n briodol, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut i gysylltu â'r Comisiynydd i'w gweld ar ei wefan **https://ico.org.uk/make-a-complaint/**

## I gysylltu â ni

**E-bostiwch: GDFenqcymru@nda.gov.uk**

**neu ysgrifwnnwch atom yn**
**GDF Enquiries**
**Building 587, Curie Avenue,**
**Harwell Campus,**
**Didcot , OX11 0RH**

[21] *http://www.gov.uk/government/publications/radioactive-waste-management-privacy-notice*

# Geirfa

**Ailbrosesu:** Gweithred o wahanu ffisegol neu gemegol, a'r diben yw tynnu wraniwm neu blwtoniwm o danwydd niwclear sydd wedi cael ei ddefnyddio er mwyn ei ailddefnyddio.

**Ardal Chwilio:** Yr Ardal Chwilio yw'r ardal ddaearyddol sy'n cwmpasu'r holl ardaloedd cynghorau cymuned lle byddwn yn gallu ystyried safleoedd posibl. Ar gyfer ardaloedd sy'n cynnwys potensial ar gyfer datblygu o dan wely'r môr, bydd yr Ardal Chwilio yn cynnwys yr ardal honno ar dir yn unig.

**Arolwg Geoffisegol:** Mae Arolygon Geoffisegol yn dechnegau synhwyro o bell a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth am ddeunyddiau sydd o dan wyneb y ddaear heb dreiddio'n gorfforol i'r ddaear. Er enghraifft, gall y mathau hyn o arolwg ddefnyddio tonnau seismig, magnetometryddion, mesuryddion ymwrthedd trydanol, radar treiddiol neu fesuryddion dargludedd electromagnetig.

**awdurdodau lleol perthnasol:** Yr awdurdodau lleol perthnasol yw'r awdurdodau Unedol sy'n cynrychioli'r Ardal Chwilio neu'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad i gyd neu ran ohoni.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Rheoleiddiwr amgylcheddol annibynnol Cymru. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yw gorfodi deddfau a rheoliadau penodedig gyda'r nod o warchod yr amgylchedd, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, yn bennaf drwy awdurdodi a rheoli gollyngiadau a gwaredu gwastraff (gan gynnwys mathau ymbelydrol) i'r awyr, dŵr a'r tir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio safleoedd niwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ac yn rhoi caniatâd i ryddhau gollyngiadau nad ydynt yn rhai ymbelydrol.

**Cyfryngu:** Mae cyfryngu yn broses ryngweithiol lle mae trydydd parti niwtral yn cynorthwyo pleidiau sy'n dadlau i ddatrys gwrthdaro drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu a thrafod. Anogir pawb sy'n cymryd rhan mewn cyfryngu i gymryd rhan weithredol yn y broses.

**Cyllid Buddsoddi Cymunedol:** Y cyllid a fydd ar gael i gynorthwyo prosiectau a allai fod o fudd i gymuned, unwaith y caiff Partneriaeth Gymunedol ei ffurfio ac y caiff Cytundeb Partneriaeth Gymunedol ei lofnodi.

**Cyllid Ymgysylltu:** Bwriad Cyllid Ymgysylltu yw talu costau gweithgarwch ymgysylltu'r Gweithgor a'r Bartneriaeth Gymunedol, eu gwaith casglu gwybodaeth a'u gwasanaethau cymorth.

**Cymdeithas Ddysgedig:** Sefydliad sy'n bodoli i hyrwyddo disgyblaeth academaidd, proffesiwn, neu grŵp o ddisgyblaethau cysylltiedig.

**Cyngor Cymuned:** Cynghorau Cymuned yw lefel llawr gwlad llywodraeth leol yng Nghymru. Mae dros 730 o gynghorau cymuned, er nad oes gan rai rhannau o Gymru gyngor cymuned, maent yn rhan o ardal cyngor cymuned.

**Cytundeb Partneriaeth Gymunedol:** Cytundeb wedi ei lofnodi gan aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r gwaith y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn ei gyflawni.

**Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol:** Fforwm agored y gellid ei sefydlu gan y Bartneriaeth Gymunedol i annog deialog ehangach gyda'r gymuned.

**Gwastraff ymbelydrol gweithgaredd uwch (HAW):** Mae gwastraff ymbelydrol gweithgaredd uwch yn cynnwys y categorïau a ganlyn o wastraff ymbelydrol: gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolradd, ffracsiwn bach o wastraff lefel isel gyda chrynodiad o radioniwclidau penodol sy'n ddigonol i atal ei waredu fel gwastraff lefel isel.

**Gwastraff lefel uchel (HLW):** Gwastraff ymbelydrol sy'n cynhyrchu gwres o ganlyniad i'w ymbelydredd, felly mae'n rhaid ystyried y ffactor hwn wrth ddylunio cyfleusterau storio neu waredu.

**Gwastraff lefel ganolraddol (ILW):** Gwastraff ymbelydrol sydd y tu hwnt i ffiniau gweithgarwch uchaf ar gyfer gwastraff lefel isel ond lle nad oes angen ystyried lefelau gwres wrth gynllunio cyfleusterau storio neu waredu.

**Gwastraff lefel isel (LLW):** Gwastraff ymbelydrol nad yw'n uwch na lefelau penodedig o ymbelydredd. At ei gilydd, prif gydrannau gwastraff lefel isel yw rwbel adeiladu, pridd a dur yn sgil datgymalu a dymchwel adweithyddion niwclear a chyfleusterau niwclear eraill a chlirio safleoedd niwclear.

**Gwastraff ymbelydrol:** Unrhyw ddeunydd sy'n cael ei halogi gan neu sy'n ymgorffori ymbelydredd uwchlaw trothwyon penodol a ddiffinnir mewn deddfwriaeth, ac na ragwelir unrhyw ddefnydd pellach ar ei gyfer.

**Gweinyddwr Cyllid:** Y corff sy'n gyfrifol am weinyddu Cyllid Buddsoddi Cymunedol. Gallai fod yn elusen, yn Ymddiriedolaeth, yn gorff cyhoeddus neu'n gwmni.

**Gweithgor:** Caiff y Gweithgor ei ffurfio yn ystod camau cynnar y broses er mwyn casglu gwybodaeth am y gymuned a darparu gwybodaeth i'r gymuned ynghylch gwaredu daearegol cyn ffurfio Partneriaeth Gymunedol. Mae'n cynnwys y Parti â Diddordeb, RWM, hwylusydd annibynnol, cadeirydd annibynnol ac unrhyw awdurdod lleol perthnasol sy'n dymuno ymuno.

**Gweledigaeth y Gymuned:** Mae gweledigaeth gymunedol yn cynnwys nodau/uchelgeisiau strategol a ddatblygwyd gan y gymuned. Dylai'r weledigaeth geisio dod â gwerth ychwanegol neu welliannau i'r gymuned. Mae'n debygol y bydd yn datblygu dros amser ac yn cael ei weithredu dros nifer o flynyddoedd.

**Hawl i Dynnu'n Ôl:** Y gallu i gymuned neu RWM dynnu'n ôl o'r broses leoli mewn ardal benodol.

## Geirfa - parhad

**Panel Buddsoddi Cymunedol:** Y panel sy'n adolygu ac yn penderfynu ar geisiadau i gyllido prosiectau o'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol o fewn yr Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad.

**Partneriaeth Gymunedol:** Y bartneriaeth rhwng aelodau'r gymuned, o leiaf un awdurdod lleol perthnasol ac RWM, a fydd yn gyfrwng ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned ac ar gyfer dod o hyd i atebion i'r cwestiynau a all fod gan y gymuned ynghylch gwaredu daearegol, y broses leoli a sut gallent, fel cymuned, elwa.

**Prawf Cefnogaeth y Cyhoedd:** Mecanwaith i ganfod a yw trigolion y Gymuned Gynnal bosibl o blaid datblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn eu cymuned.

**Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM):** Mae'r Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn darparu gwaith craffu annibynnol a chyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig ar reoli gwastraff ymbelydrol gweithgaredd uwch yn y tymor hir. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol, a noddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

**Rheithgor Dinasyddion:** panel o bobl o blith y boblogaeth leol, sydd fel arfer yn cael eu dewis ar hap. Rhoddir cyfle i'r rheithgor groesholi arbenigwyr sydd wedi cael eu galw i roi gwahanol safbwyntiau ar y pwnc, ac yna maent yn cynhyrchu crynodeb o'u casgliadau ar y cyd ar ffurf adroddiad byr.

**Rhestr Gwastraff Ymbelydrol y Deyrnas Unedig:** Casgliad o ddata ar ddaliadau gwastraff ymbelydrol yn y Deyrnas Unedig, sy'n cael ei gynhyrchu bob tair blynedd yn fras gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

**Sgrinio Daearegol Cenedlaethol (NGS) Cyfleuster Gwaredu Daearegol:** Ymarfer a wneir gan RWM sy'n dwyn ynghyd wybodaeth ddaearegol lefel uchel sydd ar gael yn barod ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n berthnasol i ddiogelwch Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**Tanwydd wedi ei ddefnyddio:** Tanwydd niwclear sy'n cael ei dynnu o adweithydd yn dilyn arbelydru nad oes modd ei ddefnyddio bellach yn ei ffurf bresennol oherwydd disbyddiad deunydd ymholltog, gwenwyn wedi cronni neu ddifrod ymbelydrol.

**Trwyddedu amgylcheddol:** Caniatâd a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ganiatáu i weithredwr gyflawni rhai gweithgareddau, yn amodol ar amodau a chyfyngiadau ar ollyngiadau i'r amgylchedd.

**Twll turio:** Twll turio yw'r term cyffredinol ar gyfer unrhyw waith cloddio silindrog i'r ddaear a wneir gan ddyfais ddrilio at ddibenion fel ymchwilio, profi a monitro safle.

**Y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad:** Y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yw'r gymuned o fewn yr ardaloedd cyngor cymuned lle byddai'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol a'r datblygiad cysylltiedig yn cael eu lleoli.

**Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR):** Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn rheoleiddio diogelwch a diogeledd niwclear yn annibynnol mewn safleoedd niwclear trwyddedig yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn rheoleiddio'r gwaith o gludo deunyddiau ymbelydrol ac yn sicrhau bod rhwymedigaethau o ran diogelu yn cael eu bodloni.

**Ymbelydredd:** Atomau sy'n dadelfennu ar hap yn ddigymell, fel arfer gydag allyriad ymbelydredd yn gysylltiedig â hynny.



## Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am waith y DU i ddelio â gwastraff ymbelydrol

E-bostiwch
**gdfenqcymru@nda.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter

**@rwm_gdf_uk**
**@rwm_community**

neu ewch i wefan yr ymgyrch

**gwaredu daearegol**

Radioactive Waste Management